

ECO'R WYDDFA

RHIF 289

MAI 2002

PRIS 40c

Llwyddiant Llyfr Lleol

Yn sgil y derbyniad a gafodd y llyfr 'Pobol tu ucha'r Giât', gan Rol Williams, mae ym mwiad y cyhoeddwy, Gwasg Pantycelyn, Caernarfon i gyhoeddi argraffiad arall o'r llyfr yn ystod yr wythnosau nesaf. Gwerthwyd y cyfan o'r argraffiad cyntaf o fewn pum wythnos. Yn y llyfr cafwyd hanes hen deuluoedd Gwaun Cwm Brwynog, y cwm uwchben Llanberis.

Gan fod cynifer o bobl wedi sôn wrth yr awdur y carent ymweld â'r cwm, ac yn enwedig

adfeilion Capel Hebron, cysylltodd yr awdur â chwmni rheilffordd yr Wyddfa i holi a oedd modd llogi trên arbennig i gludo cynifer o bobl i Hebron ar bnawn Sadwrn yn yr haf, gyda'r bwriad o gynnal gwasanaeth yn yr awyr agored ger adfeilion Hebron ac yno hefyd glywed atgofion rhai pobl. Yn anffodus nid oedd y cwmni yn barod i hurio trên i'r diben hwn ac, o'r herwydd, rhaid siomi cynifer o bobl oedd yn bwriadu ymweld â Hebron a chyrho y Cwm.

Punt, Paned a 'Croeso'!

Mae'r Clwb Cyfri Caloriau yn ddwyflwydd oed fis Ebrill yma. Yn ôl Eirian Pritchard o Fethel, un o sylfaenwyr y Clwb, doedd hi erioed yn meddwl y basa'r Clwb yn dal i fynd - ond, meddai, 'mae'n lot o hwyl, ac mae pawb yn mwynhau dod yma am baned a sgwrs!'

Fe gynhelir y clwb yng Nghaban-y-cwm yng Nghwm-y-glo, ac mae'n agored i bawb sy'n byw yn y fro. Erbyn hyn mae dros 60 o aelodau a bydd tua 25 i 30 ohonynt yn cyfarfod yn wythnosol ar Nos Fawrth. Er mai clwb i godi ymwybyddiaeth am iechyd personol yw'r clwb, nid oes unrhyw bwyslais ar drafod materion yn ddwys.

Bydd yr aelodau yn talu punt ac yn cael eu pwyso; ac yna dros baned bydd cyfle i sgwrsio'n anffurfiol gyda nyrs, meddyg, dietegydd neu ffysiotherapydd pe dymunir, neu jyst sgwrsio efo'u ffrindiau!

Fe gynhelir sesiynnau amrywiol o weithgareddau gan y Clwb, ac ar nos Fawrth, 9 Ebrill daeth grŵp sy'n cyfarfod yn rheolaidd yn Llanberis i roi cyflwyniad i'r ymarferiad Siapaneaidd Koshin Ki (Adnewyddu'r Ysbryd). Cafwyd cyflwyniad cofiadwy gan y tîm dan arweiniad Brent a Sara Burman - yr hyfforddwyr, sy'n cynnal amryw o ddosbarthiadau yn ymwneud ag ymarferiadau Siapaneaidd yn Llanberis.

Mae'r ymarferiadau yn fodd i reoli stres, pwysau gwaed, hwyluso cylchrediad y gwaed, agor cymalau i wella clwyfau a rhyddhau poenau crud cymalau. Gall hefyd wella ymwybyddiaeth o'r corff/meddwl, cynyddu cryfder a balans y corff yn ogystal â hyrwyddo hirhoedledd - wel, dim ond os gwnewch chi ymarfer yn ddigon aml, mae'n debyg!

Ond, ar y noson roedd aelodau'r Clwb Cyfri Caloriau wedi cael blas ar y sesiwn cyflwyno. Dywedodd Gwyneth Parry o Lanberis, 'Roedd yn ddiddorol iawn, yn ffordd wahanol a braf i ymlacio.' Dywedodd Maureen

Edwards, sy'n un o aelodau'r tîm Koshin Ki ac yn un o Gyfarwyddwyr Menter Fachwen, 'Mae wedi bod yn noson hyfryd, gyda phawb yn werthfawrogol o'r grŵp sydd wedi gwneud cyflwyniad hyderus.'

Os oes diddordeb gennych i fynychu rhai o sesiynnau Koshin Ki neu rai o'r ymarferiadau Siapaneaidd eraill, cysylltwch â Sara neu Brent Burman drwy ffonio (01286) 870022.

Os am ymuno â'r Clwb Cyfri Caloriau ffoniwch Ann Owen ar



Criw Clwb Cyfri Caloriau yng Nghaban y Cwm.

(01286) 872014, neu galwch agor rhwng 9 y bore a 4 y pñawn heibio i Gaban-y-cwm yng Dydd Llun - Dydd Gwener. Nghwm-y-glo - mae'r Caffi ar Croeso!

Noson o Ddawns yn Theatr Gwynedd



Bu grŵp dawns disgo tŷ Eryri o Ysgol Brynrefail, a ddaeth yn fuddugol yn eisteddfod yr ysgol eleni, yn perfformio yn Theatr Gwynedd Bangor. Roedd yn gyfle gwyh iddynt

ddawnsio dan oleuadau lliwgar a llachar y theatr gan greu naws proffesiynol iawn.

Cafodd yr wyth, Llinos Jones, Gwenno Jones, Emma Smith, Amy Jones, Sasha

Williams, Ffion Jones. Kelly Cavanagh a Sioned Williams fwynhad mawr o berfformio o flaen aelodau o ysgolion eraill, gan gynnwys ysgolion cynradd lleol.

ECO'R WYDDFA

RHIF 289

MAI

Argraffwyd gan Wasg Gwynedd
Cibyn, Caernarfon

Cydnabyddir cefnogaeth
Bwrdd yr Iaith Gymraeg
i'r cyhoeddiad hwn.

SWYDDOGION A GOHEBWYR

Golygyddol:

IWAN ROBERTS

LLEIFIOR, LLANRUG
Ffôn: (01286) 675649

Cadeirydd Pwyllgor Llywio:

ARWEL JONES

CAE EBONI, PENISARWAUN
Ffôn: (01286) 871274

E-bost: ecorwyddfa@AOL.com

GOLYGYDD CHWARAEON

Richard L. Jones, 5 Y Ddôl, Bethel.
(01248) 670115

DYDDIADUR Y MIS

FFOTOGRAFFWR

Gwynnaf Hughes, Glasgoed,
Llanrug (677263)

TREFNYDD HYSBYSEBION

John Roberts, Bedw Gwynion, Ffordd
Glanffynnon, Llanrug (675605)

TREFNYDD BWNDELU

Jean Jones, Cesail y Mynydd,
Deiniolen (871550)

TRERFNYDD ARIANNOL

Goronwy Hughes, Eithinog, 14 Afon
Rhos, Llanrug (674839)

TREFNYDD GWERTHIANT POST

Mrs Olwen Llywelyn, Pant Afon Bach,
Llanrug (650200)

TREFNYDD PLYGU

Shioned Griffith (650570)

GOHEBWYR PENTREFI

BETHEL: Geraint Elis, Cilgeran
(01248) 670726

BRYNREFAIL: Mrs Lowri Prys Roberts-
Williams, Godre'r Coed (870580)

CAEATHRO: Clive James, Hafan, Bryn
Gwna (677438)

CEUNANT: Trystan a Sioned Larsen,
Bodafon, Ceunant (650788)

CWM-Y-GLO: Mrs Iris Rowlands,
Glanrafon (872275)

DEINIOLLEN: W. O. Williams,
6 Rhydfadog, Deiniolen (871259)

DINORWIG: Marian Jones, Minallt,
7 Bro Elidir, Dinorwig (870292)

LLANBERIS: Gwyneth ac Eifion Roberts,
Becws Eryri (870491)

LLANRUG: Eryl Roberts, 3 Bryn Moelyn
(675384)

NANT PERIS: Llinos Jones, 6 Nant
Ffynnon (871820)

PENISARWAUN: Mrs Ann Evans, Sycharth
(872407)

TAN-Y-COED: Miss Anwen Parry,
Ael-y-Bryn (872276)

WAUNFAWR: Mrs Nan Roberts, Pantafon,
Waunfawr (650570)

Y RHIFYN NESAF

Deunydd i law'r
golygyddion perthnasol

NOS LUN, MAI 20

Os gwelwch yn dda

Daw'r rhifyn nesaf o'r wasg

NOS IAU, MAI 30

DYDDIAD A LLEOLIAD PLYGU'R ECO

Trefnydd Plygu: Mrs Shioned Griffith, Pantafon, Waunfawr. (01286) 650570

Rhifyn	Dyddiad Copi	Dyddiad Plygu	Ble	Cysylltu a
Mehefin Gorffennaf AWST Medi Hydref Tachwedd Rhagfyr	Mai 20 Mehefin 10 Awst 19 Medi 16 Hydref 21 Tachwedd 18	Mai 30 Mehefin 20 Awst 29 Medi 26 Hydref 31 Tachwedd 28	Brynrefail Bethel Dinorwig Penisarwaun Llanberis Caeathro	Gwyn Hefin Jones Mr Geraint Elis Miss Marian Jones Mrs Ann Evans Mr Gwilym Evans Mr Clive James

Llythyrau

Annwyl Golygydd

Tra'n clirio rhywfaint ar y tŷ, cefais afael ar nifer o lyfrau canu fy nhad. Llyfrau tonic sol-ffa ydyn nhw, o'r dyddiau pan oedd fy nhad yn aelod o Gôr Cymysg Llanberis. Rwy'n cofio mynd i Capel Coch i wrando ar y Côr pan oeddwn yn fychan iawn. Byddai'r Côr yn canu darnau mawr fel yr oratorio 'Samson' gan Handel.

Mr W. H. Thomas oedd yr organydd, ac roedd Aled Owen, Katie Jones, Dilys Wyn, Derek Davies, Aled Edwards, John Dethrick, Ritchie Thomas a Nancy Bateman yn unawdwyr, mewn darnau fel Messiah, Twelfth Mass, Samson, Requiem, St. Paul, Hymn of Praise a The Snowflake.

Roedd y dynion yn gweithio'n galed yn y chwarel ac wedyn yn gweithio'n galed i ddysgu'r gerddoriaeth gyda'r nos.

Os oes rhywn a fyddai'n awyddus i weld y copïau mae croeso iddynt gysylltu â mi.

Keith (Spot), Llanberis.

Ffôn: (01286) 870099.

Mas Draw
d/o Barcud
Cibyn
Caernarfon

Annwyl Ddarllenwyr,

Ydach chi rhwng 9 a 14 oed? Beth ydach chi'n ei wneud tu allan i furiau'r tŷ? Ydach chi'n barod i fentro MAS DRAW?

O syrffio i sgelfrio

O natur i nofio

O gartio i ganwio

Mae cwmni teledu Sianco Cyf. angen plant o bob cwr o Gymru i gyfrannu i gyfres newydd, gyffrous.

Os am gyfrannu,ffoniwch (01286) 684201; e-bostiwch: masdraw@sianco.demon.co.uk neu sgwennwch atom ni yn y cyfeiriad uchod.

Gan edrych ymlaen i glywed gennyh.

Diolch yn fawr iawn gan griw
MAS DRAW!

6 Heol Edward,
Caernarfon

Syr,

Yn rhifyn Mawrth o'r Eco bu i mi ysgrifennu erthygl ar 'Ysgol Waunfawr yn Niwedd y Tridegau'.

Ar ddiwedd yr erthygl soniais am rai o'r disgyblion a lle yr aethant i weithio ar ôl

gadael.

Tynnwyd fy sylw gan Robin (Cae Caled) iddo ef fynd yn drydanwr a bu yn gweithio yn Traws, Rio Tinto a'r Wylfa a llefydd eraill, ac nid fel y dywedais.

Ymddiheuriadau i Robin.

Yn gywir,

J.R. Humphreys

Mwy o luniau o Glwb Cyfrif Caloriau Caban y Cwm



Einir yn codi pwysau yn y Noson Gyfrif Caloriau yng Nghaban y Cwm.



KOTCHIN KI yng Nghaban y Cwm

FFAIR ANTIQUES FAWREDDOG YNYS MÔN

Maes Sioe Môn, Mona, Ynys Môn

Ffair Antiques Fwyaf Gogledd Cymru

Sadwrn, Sul a Llun, Mehefin 1, 2, a 3.

10 a.m. - 5 p.m.

100 o arwerthwyr o bob rhan o Brydain
yn gwerthu miloedd o greiriau o bob math

Mynediad £3

Parcio am ddim

Lluniaeth ardderchog am bris rhesymol

NAWS AR GYMRU

Amgueddfa Lechi Cymru, Llanberis yn cipio gwobr o bwys

Mae Amgueddfa Lechi Cymru, Llanberis, un o ganghennau Amgueddfeydd ac Oriolau Cenedlaethol Cymru, wedi cael y wobwr gyntaf yng nghategori 'Naws ar Le,' Bwrdd Croeso Cymru.

Trefnwyd y gwobrau 'NAWS AR LE' gan Fwrdd Croeso Cymru, ar y cyd â'r *Western Mail* a'r *Daily Post*, ac fe'u rhoddir i'r busnesau hynny sydd wedi llwyddo orau i greu ymdeimlad cryf o fod yng Nghymru.

Sefydlwyd yr Amgueddfa ym 1972, ac mae wedi'i lleoli yn y gweithdai diwydiannol a oedd yn gwasanaethu Chwarel Dinorwig. Ei nod yw diogelu a chyflwyno stori'r diwydiant mwyaf Cymreig o holl ddiwydiannau Cymru, fel yr eglurodd Dr Dafydd Roberts, Ceidwad yr Amgueddfa:

'Roedd y diwydiant llechi yn asgwrn cefn i'r gymuned yng ngogledd-orllewin Cymru o ddechrau'r 19eg ganrif hyd ganol yr 20fed ganrif a daeth yn ddiwydiant Cymreig eiconig. Ein nod ni fel Amgueddfa yw adrodd stori diwydiant llechi Cymru i'r byd, a'r safle hwn, yng nghanol y diwydiant llechi, yw'r lle gorau i wneud hynny.

'Rydym ni'n adrodd stori'r gymuned a'i phobl, ac mae'r rhan fwyaf o'r staff a gyslogir yma yn

perthyn i'r dynion a fu'n gweithio yn y chwareli hyn. Roedd cymunedau chwarelyddol Cymru yn Gymreig o ran iaith a natur, ac mae'r iaith Gymraeg yn chwarae rhan bwysig yng ngwaith beunyddiol Amgueddfa Lechi Cymru. Rydym ni i gyd yma yn siarad Cymraeg, ac mae'r

ymwelwyr yn mwynhau gwrandao ar y staff yn siarad Cymraeg.

'Yn ddiweddar, enillodd caffîr Amgueddfa, Caffîr Ffowntan, wobwr 'Bwydlen Ddwyieithog Orau' Bwrdd yr Iaith Gymraeg. Rydym hefyd yn aelod o'r cynllun 'Blas ar Gymru', ac rydym yn ceisio sicrhau ein bod yn prynu'r rhan fwyaf o'n cynnyrch yn lleol. Mae'r rhan fwyaf o'r cynnyrch a werthir yn y siop hefyd wedi'i wneud yn lleol, a chynhyrchir cyfran helaeth ohono ar y safle. Rydym yn rhoi pwyslais mawr ar ddarparu eitemau a

wnaed yng Nghymru.

'Cymru oedd Cenedl Ddiwydiannol Gyntaf y Byd. Ond nid yw llechi a sbroedi, dur a glo yn rhoi darlun cyflawn o ddiwydiant yng Nghymru - adeiladwyd y diwydiant hwn drwy lafur caled a doniau'r bobl gyffredin. Yma, yn Amgueddfa Lechi Cymru, fel rhan o strategaeth ddiwydiannol Amgueddfeydd ac Oriolau Cenedlaethol Cymru, rydym yn adrodd hanes anghyffredin chwarelwyr cyffredin a'u teuluoedd.'



Staff Amgueddfa Lechi Cymru.

www.s4c.co.uk



Dyn ar y Dibyn

PEN TENNYN

9.00PM
BOB NOS SUL

YN DECHRAU 5 MAI

AILDDARLLIEDIAD BOB NOS FAWRTH

CYFRES NEWYDD

S4C

O SIAMBAR SELWYN

Yn y golofn hon y ddau fis diwetha, bûm yn dwyn atgofion am ddyddiau fy mhientyndod ym Methel. Cyfeiriwyd at Bethel yn yr hen ddyddiau fel Athen plwy Llanddeiniolen. Sut le oedd ym Methel cyn i mi gael fy mrecwast cynta yn fy ngwely ar Fai 19, 1928, yn Gwynfryn, Bethel, ac yn wir dros ganrif cyn hynny, ys gwn i? Dowch am dro i'r gorffennol.

Saif ardal Bethel yng nghwr isaf plwyf Llanddeiniolen ac yng nghantref Is-Gwyrfa. Mae y plwyf yn un o'r plwyfi gwledig mwyaf yng Nghymru. Mae o'n saith milltir o hyd, a rhyw bedair milltir o led, ac yn 9,024 o erwau.

Rhennid y rhan isa o'r plwyf yn ddau Rhos. Gelwid y pen gorllewinol yn *Rhos Chwilog*, a'r gogledd ddwyreiniol yn *Rhos Wylfa*. Gelwid yr ardal yn *Penrhoschwilog* yn yr hen ddyddiau, ond newidiwyd yr enw i *Bethel* ar agoriad y Capel Annibynwyr yn 1810.

'Chydid o hanes boreuol yr ardal sydd ar gael, a dychymyg yn unig a all ein cludo ar grwydr. Ofer fyddai ceisio pentref yma tua 250 o flynyddoedd yn ôl. Yr oedd gwedd y gymdogaeth yn bur wahanol i'r hyn ydion heddiw yn naturiol.

Roedd y 'briffordd' o Segontium yn arwain ar hyd *Lon Glai* heibio i *Glanrafon*, ac i lawr am *Ryd-y-Fuwch*, hyd *Lon Cae Meta* tuag at *Ben Caerau*. Fel y cyfeiriwyd, hen enw ar yr ardal oedd *Penrhoschwilog*, ac fe geir yr enw *rhos* ar amryw o'r tai hyd heddiw yn ogystal â'r hen dyddynnod. Hefyd mae'r *rhos* ar amryw o'r stadau newydd. Ar y ffin rhwng plwyf Llanddeiniolen a Llanfairisgaer, fe geir y rhan o'r ardal a adweinir fel *Penrhos*, ac ymhen uchaf yr ardal, yn Seion, fe geid lle o'r enw *Penisa'rhos*, ac yng nghanol y pentre ceir llefydd fel *Blaen Rhos*, *Ty'n Rhos*, *Cefn Rhos*, *Rhos*, *Rhos Alun*. Ceir hefyd *Parciau Rhos*, a blynyddoedd yn ôl roedd na le a adweinid fel *Rhos Llanfair*. Mae llawer o'r hen dyddynnod cynnar wedi eu chwalu'n llwyr. Nid oes olion ar ôl o *Rhos Llanfair*, na *Ty Conglog* neu *Ty Coch* fel y gelwid o gan

rai. Tyddynnod eraill sy' wedi hen ddiflannu ydi y rhai a adweinid fel *Erw Fedwen* a *Ty Isaf*.

Ble roedd y *Rhos Llanfair* ma meddech? Wel tŷ annedd oedd o a safai yng nghae *Bryntirion* ar dir fferm y *Crug*. Does dim o'r olion i'w gweld bellach, ond mi fuo na John Owen, Thomas Williams a un John Thomas yn byw yno, yn ogystal ag un John Roberts a adweinid fel *Sion Penfras*.

Ty Conglog. Dywed rhai mai dau dŷ annedd oedd rhain a safent yn y cae ger *Cefn Cynrig*. Gelwid ef gan rai yn *Ty Coch*.

Dwi'n cofio adfeilion hen dyddynnod *Gongl Ddu*, *Cefn Cynrig* a *Erw Fforch*. Mae na hanes diddorol i *Cefn Cynrig*, os gwir yr hanes. Dywedir i'r tyddyn hwn gael ei godi tua chwe chan mlynedd yn ôl, ac mai gŵr bonheddig o'r enw *Cynrhig Rooth* a'i cododd. Arferai hwn ddod bob haf i *Barc y Faenol*, ac fe enwid y lle yn *Cefn Cynrig* ar ei ol ef. Mae tŷ modern yno heddiw.

Y tai hynaf yn ardal Bethel ydynt *Rhyd-y-Gerlan*, *Erw*, *Ty'n Maes*, *Tan Buarth*, *Greuar*. Adeiladwyd *Glan Gors* tua 1800. Roedd hen dai *Parc Wern*, lle saif y Neuadd Goffa heddiw yn bod, yn ogystal â *Tyddyn Andrew*, *Coed Bolyn*, *Tyddyn Berth*, *Cefn a Wern Bach*. Gellir gweld mai tyddynnod oedd y mwyafrif o'r cartrefi hyn.

O'r flwyddyn 1800 ymlaen roedd poblogaeth y plwyf yn dechrau cynyddu. Yn 1801, 1,039 oedd yn byw yma. Erbyn 1831 roedd poblogaeth y plwyf yn 2,610, ac yn 1861 roedd 'na 5,747 yn byw ym mhlwyf Llanddeiniolen. Canlyniad y cynnydd oedd datblygiad y

chwareli, ac yn naturiol roedd galw am fwy o dai. Yn y cyfnod hwn y dechreuwyd adeiladu tai yn y rhan a elwir *Saron*. Adeiladwyd rhai o'r tai gan Thomas Williams, Ty'n Maes; William Parry, Cae Meta; Humphrey Roberts, Erw Fforch a William Roberts, Cefn; ynghyd â llu o rai eraill a adeiladodd dai iddyn nhw eu hunain.

Hugh Jones, gof, a drigai ym *Mryn Pistyll* a gododd y tai a adweinir fel *Tre'r Gof*, a dyna

pam y gelwir y rhan yma o'r pentref yn *Tregof* (*Tre-y-Gof*).

Digon o waith y gellir honni bod na dref yno ond mi fuo cynnau tai *Tre'r Gof* yn dyrrau Wembli i mi yn nyddiau mhientyndod pan fyddai Gors Tyddyn Bach yn facs y Cup Ffeinal.

Efallai y caf gyfle eto rhywbryd i son am rai o hen dyddynnod Bethel.

Maen nhw wedi mynd i gyd; O'r hen dyddynnod hyn 'Does na ddim o'u hôl - dim byd.

PROSESYDD GEIRIAU 'BROTHER'

AR GAEL

AM DDIM

i unrhyw fudiad neu gymdeithas wirfoddol
Cysylltwch â: Catrin Thomas, Bron y Nant, Llanrug
Ffôn: (01286) 673515

BEICS WIL



BEICIAU NEWYDD
AC AIL LAW

• TRWSIO • CYNNAL
• PARTIAU



SIOP AROSFA, WAUNFAWR (01286) 650 723


GWYN JONES

FFENESTRI ERYRI GARTH ISAF, LLANRUG

(01286) 650764

neu

W. G. Roberts (Wil Korea)
676741



BLYNYDDOEDD O BROFIAD YN Y MAES

FFENESTRI

DRYSAU

DRYSAU PATIO

PORCHES

BYRDDAU FFASIA

CLADIO

CONSERFATERIS

Fframia

Gwasanaeth Fframio Lluniau
Arbenigwyr ar fframio gwaith edau a nodwydd

Nifer helaeth o luniau ar werth
Dewis eang yn cynnwys:

IVOR STUBLEY • KEITH ANDREW
KEITH BOWEN • ROB PIERCY

PARC PADARN, LLANBERIS (870922)

(Ar gau dydd Sul a dydd Llun yn ystod y gaeaf)

E. W. Pritchard CENTRAL GARAGE Llanberis

Ffôn: (01286) 870202

TREFNWYR ANGLADDAU
CEIR AR GYFER PRIODASAU

Un funud fach BETHLEHEM

Ers dyddiau lawer mae Bethlehem wedi bod yn y newyddion am resymau digalon a brawychus. Mae milwyr Israelaidd wedi bod yn amgylchynu adeilad Eglwys y Geni lle mae grŵp o Balestinaid arfog wedi ceisio lloches. Parodd y gwarchae yn hir, a ddoe cariwyd dau gorff allan o'r eglwys gan nifer o Balestinaid ifanc. Erbyn y byddwch chi'n darllen y geiriau gweddiwn y bydd y gwarchae drosodd heb ragor o dywallt gwaed.

Mae'r holl sefyllfa yn boenus o drist i bawb sydd wedi dilyn y stori dros y dyddiau diwethaf yma. Mae'r saethu a'r lladd, y casineb a'r methiant i gymodi yn fater o ofid mawr i filoedd o bobl ym mhob cwr o'r byd.

Ac i Gristnogion, mae'r ffaith mai ym Methlehem y digwydd hyn oll yn dyfnhau'r gofid. Mae'n debyg fod llawer ohonoch wedi bod ym Methlehem, ac wedi ymweld â'r eglwys hon a godwyd ar y safle y dywedir i'r Iesu gael ei cni ynddo. Ac mor trist yw hi fod Bethlehem, lle ganwyd Tywysog Tangnefedd, wedi dod yn dywysogaeth trais unwaith eto.

A chlywais rywbeth arall i beri gofid wrth wrando ar fwletin newyddion yr wythnos hon. Ar Radio Cymru y clywais gyfeirio at y ddinas a'r eglwys fel man geni "Iesu, un o broffwydi'r grefydd Gristnogol".

Ydy pethau mor ddrwg yng Nghymru fel bod angen i ohebydd newyddion egluro i'r

gwrandawyr pwy yw Iesu Grist? Ond mwy trist oedd clywed y disgrifiad ohono fel "un o broffwydi'r grefydd Gristnogol". Rwy'n gwybod na fedrwy ddisgwyl i ohebydd newyddion fod yn gwbl gywir ei ddiwinyddiaeth a chyfeirio at Iesu fel Mab Duw. Ond mi fedrech chi ddisgwyl iddo gyfeirio ato fel "sylfaenydd" neu "arweinydd" y grefydd Gristnogol. Mae gwneud Iesu Grist yn ddim mwy nag "un o broffwydi'r grefydd Gristnogol" yn merwino clust y Cristion yn o arw.

Bydd llawer yn dweud fy mod yn ansensitif ac yn anghywir i bocni am fanion diwinyddol tra bo'r lladd a'r gormesu'n parhau. Mae ganddynt hawl i'w barn. Ond nid manion mohonynt. Nid "un o'r proffwydi" yw Iesu Grist. Nid un o'r athrawon crefyddol a ddaeth i'r byd i geisio galw pobl i'r llwybr cywir mohono. Mae'n llawer mwy na hynny. Mae'r dyn hwn yn Fab Duw ei hun; a chredu rwyf fi, fel y gwnaeth Cristnogion o'r dechrau, mai dyna'n union sy'n ei alluogi i sicrhau heddwch rhwng pobl â Duw a rhwng pobl â'i gilydd.

Mae'n llawer mwy na phroffwyd sy'n galw ar bobl i glosio at ei gilydd. Ac felly, gweddiwn am heddwch a chymod rhwng Israelaidd a Phalestinaid, gan gredu mai Iesu, Fab Duw a Thywysog Tangnefedd, sy'n gallu cymodi gelynion â'i gilydd yn ein byd helbulus ni.

JOHN PRITCHARD

R.M. (DIC) PARRY

PEINTIWR AC ADDURNWR

PRISIAU RHESYMOL

TAWELFA, PENISARWAUN

Ffôn: (01286) 870846

H. E. HUGHES A'I FEIBION

Bwthyn Gadlys
LLANBERIS

FFôn: 870444



- Gwerthwyr Glo ac
- Olew Gwres Canolog i'ch cadw'n gynnes ac yn glyd!

WAUNFAWR

Mrs Nan Roberts, Pantafon. Ffôn: (01286) 650570

Camera yn ngofal Heulwen Hughes, Argoed. Ffôn: (01286) 650556

CYLCH TI A FI. Mae Cylch Ti a Fi Waunfawr wedi newid i bob dydd Llun o 9.00 tan 10.30 y bore. Mae croeso i bob plentyn hyd at oed ysgol a'i rhieni neu warchodwyr. Cynhelir y cyfarfodydd yn Y Ganolfan.

LLONGYFARCHIADAU
LLWYDDIANT CERDDOROL.

Llongyfarchiadau i Pryderi Thomas, Stad Tref Eilian ar lwyddo yn yr arholiad piano Gradd 3 gydag anrhydedd.

GENEDIGAETHAU.

Llongyfarchiadau i Doug a Lola Bron Eifion ar ddod yn daid a nain i Nel, merch fach i Eleri a Sion a chwaer fach i Elin a Megan.

Llongyfarchiadau i Duncan a Gill, Gwelfor ar ddod yn daid a nain i Leisa, merch fach i Beca.

Ganwyd merch fach Elliw Môn i Delyth ac Iwan Roberts, Trewen.

Llongyfarchiadau i Karen a Michael Owen, Bro Waun ar enedigaeth eu mab bychan, Tomas Elias, brawd bach i Fiona, wyres fach i Megan Williams, Bryn Difyr a Dennis Bound, Bro Waun, a gorwyres fach i Mrs Westphall, Tref Eilian a Mr a Mrs H. O. Jones, Glasfryn.

Mab bach Caradog Ifan a anwyd i Menna ac Idris (yr Antur) brawd bach i Mabon.

Croeso mawr i'r rhai bach a phob bendith i'r teuluoedd.

DATHLU PRIODAS ARIAN.

LLongyfarchiadau i Pat a Gwynedd, Bron Llywelyn, a fu'n dathlu cyrraedd eu priodas arian. DERBYN ANRHYDEDD.

Yn ystod y dyddiau diwethaf cyhoeddwyd mai Mr Gwyn Davies, Bryn Eithin fydd yn derbyn Gobroff T. H. Parry-Williams, a roddir i unigolion sydd wedi gwneud cyfraniad arbennig i'r iaith a'r diwylliant Cymraeg dros gyfrwd o amser. Bydd seremoni cyflwyno'r fedal yn yr Eisteddfod Genedlaethol yn Nhŷ Ddewi fis Awst.

DYMUNO GWELLHAD.

Mae holl drigolion yr ardal yn dymuno'n dda i Robert mab teirblwydd oed Eleri a Derek, Stad Tŷ Hen, fydd yn gorfod derbyn triniaeth ysbyty am dair blynedd.

Anfonwn ein dymuniadau gorau am wellhad buan at Mrs Glenys Pierce, Bryn Gwyn wedi iddi dderbyn llawdriniaeth yn ddiweddar.

Anfonwn ein cofion hefyd at Neil, Garage Pant Waun wedi iddo ef dderbyn triniaeth.

DIOLCH.

Dymuna Mrs Rhian Llywela a Fflŷr Llywelyn, ddiolch o galon i berthnasau a chymdogion am bob caredigrwydd a ddanghoswyd tuag atynt yn eu profedigaeth o golli Eric, Gŵr a Thad annwyl.

Dymuna Mrs Doris Roberts,

Parhad ar dudalen 18

EMYR JONES


PLYMAR A
PHEIRIANNYDD
GWRESOGI



Cynnal boileri nwy,
olew, tanwydd solat
a thredio peipiau



44 Glanffynnon, Llanrug
CAERNARFON 673513
Ffôn Symudol: 07774 496616



GWYNANT PIERCE

Cynrychion Coed:
Gatiau, Ffensus ac ati
am brisiau cystadleuol

Uned 1, Fferm Bryn Afon
LLANRUG

Ffôn: (01286) 650349
(0589) 899901

Dylan Griffith

TREFNWR ANGLADDAU ANNIBYNNOL a LLEOL
TROS-Y-WAEN, PENISARWAUN

Yn gwasanaethu'r holl ardal, yn cynnwys:

PENISARWAUN, DEINIOLLEN, LLANRUG A LLANBERIS
Gwasanaeth teimladwy,
urddasol a phersonol.
24 awr y dydd

Ffoniwch: Dylan (Llys) ar 871833

Symudol: 07778 127394

HEFYD



CERBYDAU CLASUROL YR WYDDFA

Cyrhaeddwch mewn steil - mewn cerbyd Rolls Royce
ar gyfer priodasau, pen-blwyddi ac
achlysuron arbennig eraill

CHWILOTA

Y TRADDODIAD O HAFOTA.



Calan Mai yn draddodiadol oedd y dyddiad pan fyddai'r hen amaethwyr yn ffarwelio â'u cartrefi gaeafol ac yn 'mudo i'r mynydd' i fugeilio gwartheg, defaid a geifr dros dymor yr haf, nes dychwelyd ar Wyl yr Holl Saint i'w 'gaeafy' neu'r hendre. Parhaodd yr hen draddodiad hwn am genedlaethau, a cheir disgrifiadau lu o'r arfer yng ngweithiau Pennant, Fenton, Hyde Hall ac eraill. Mae'n syndod faint o 'hafodydd' a 'hendrefi' sy'n parhau (mewn enw o leiaf) yn ein hardal ni. Maent i'w cael ym mhob un o blwyfi dalgylch yr 'Eco', ac nid oes angen eu rhestru yma: efallai y byddant yn destun cystadleuaeth rhyw Nadolig i ddod!

Mae'r Athro R. Alun Roberts (Yr Elfen Fugeiliol ym Mywyd Cymru) yn nodi mai i hafod ger Llyn Llydaw y bu'r enghraifft olaf o hafota yng nghyffiniau'r Wyddfa, a hynny tua 1862. Ond wrth gwrs, roedd yr arfer wedi parhau wedi hynny, ond nad oedd aelodau'r teulu yn aros yn yr hafod bellach, ond yn hytrach yn dychwelyd i'r hendre wedi diwrnod o fugeilio ar y mynydd. Ac mewn amser, sefydlodd rhai aelodau o'r teulu i fyw yn yr hafod ei hun - haf a gaeaf - gan feithrin priddoedd tenau a llwm yr ucheldir, ac yn ein hardal ni, ychwanegu at enillion prin y tir trwy weithio'n y chwarel. Dyna o bosibl gychwyn yr arfer o dyddynwr-chwarelwr yn ein hardaloedd.


Ceir enghreifftiau cynnar iawn mewn gwahanol gofnodion am hafotai ardal yr Wyddfa., a rhaid cofio, wrth gwrs, mai yn y cyfnodau cynnar, nid yn y mynydd yn unig yr oedd yr hafotai, ond ar unrhyw dir diffaith na ellid ei drin yn hawdd i dyfu cnydau. Oherwydd rhaid cofio mai prif fwriad y symud oedd tyfu cnydau ar y tir âr, a rhoi gorffwys i'r dolydd er mwyn cael digon o wair i'w ladd a'i sychu dros y gaeaf. Roedd porfa ddigonol i'r anifeiliaid ar y tir diffaith dros fisocdd yr haf, a gellid eu godro i gynhyrchu menyn a chaws o'r llefrith.

Nid yw'n syndod felly fod

son am hafodydd ar dir y byddem ni heddiw yn ei gyfri yn dir ffermio eithaf da. Bron i saith can mlynedd yn ôl cofnodir pedair hafod yn ardal Cacathro - Dolfibus, Cerrig gwyn, Tyddyn Llannerch a Glanrayat (?). Goroesodd rhai o'r enwau hyd 1840 a chofnodir hwy ar fapiau'r degwm yn ffermydd Prysgol a Thyddyn Whisgin.

Cofnodir pedair o hafodydd craill uwchben Llanberis: Cwmbwynog, Helfa'r aelgerth, Maesgwm a Chwm Dwythwch; ill pedair yn perthyn i Gastell Dolbadarn. Ym mhlwyf Llanbeblig (Waunfawr yn ddiweddarach), cofnodir hafod gan fferm Gwastadfaes o'r enw Hafod Tudur, ac heb fod nepell i ffwrdd roedd Hafod Olau, ac roedd Hafod Olau arall ym mhlwyf Llanddeiniolen. Ym mhlwyf Llanrug (ardal y Ceunant) roedd rhan o'r Cefn Du yn cael ei alw'n Parc y Buchod, sef porfa haf i'r gwartheg ar gyrion Hafod-las, a thu hwnt i dir diffaith (bryd hynny) a elwid yn Ffridd Wylt.

A daw'r truth hwn a ni'n ôl at destun y mis diwethaf, sef wal fynydd fferm y Llwyncoed yn ardal y Clegir. Dyna'r wal wreiddiol a oedd yn rhannu'r tir amaeth (gaeaf) oddi wrth y tir pori (haf). Y tyddynwr-chwarelwr cynnar ac yna'r deddfau cau tiroedd comin a olygodd fod waliau eraill yn cael eu hadeiladu yn uwch ar y



Ble roedd y plasdy hwn? Arferai sefyll rywle yn ardal yr "Eco", ond nid yw'n bod heddiw.

mynydd. Dadfeiliodd un sustem fel y datblygodd y llall, nes rhoi i ni'r patwm presennol o fân gaeau a thiroedd agored ar lethrau'r mynyddoedd.

Plasdy sydd wedi diflannu.

Derbyniwyd y llun gan un o ddarlennwyr yr 'Eco'. Roedd wedi ei llynu ar garden Nadolig a anfonwyd yn 1947 i berson oedd yn byw mewn ty arall a adeiladwyd ar safle'r plasdy gwreiddiol. Roedd y print mewn lliw, ac yn amlwg yn dangos yr adeilad tua 1800-1820. Cafodd yr hen blasdy ei ddymchwel lai na canrif wedi hynny, ac adeiladwyd plasdy arall yn ei le. Mae'r safle'n hynafol, ac fel y gwelwch, wedi ei leoli ar lan afon. Ceir cofnodion am deulu yn byw ar y safle hwn dros bedwar can mlynedd yn ôl.

Oes unrhyw un o ddarlennwyr yr 'Eco' yn adnabod y plasdy? Neu'n well fyth, yn gwybod ble mae'r copi gwreiddiol o'r llun, a phwy oedd yr arlunydd?

Cewch wybod enw'r plasdy yn y rhifyn nesaf!

Llanberis a Cherddorfa'r Boston Symphony.

Bellach cafwyd cadarnhad na

fu'r ferch fach o Lanberis yn aelod o'r gerddorfa hon. Ond rwy'n dal yn awyddus i wybod beth ddigwyddodd iddi. Roedd yn byw gyda'i mam a'i nain yn Stryd Turner yn 1881, ond pan briododd ei mam a symud i Gaernarfon, arhosodd gyda'i nain yn Llanberis. Yn ôl cyfrifiad 1891 roedd y ddwy yn byw yn Belmont House ar y Stryd Fawr yn Llanberis. Mae'r nain yn parhau i'w disgrifio'i hun fel "lodging house keeper". Bu'r nain, Elizabeth Hughes, farw yn Belmont House yn 1897 yn 77 oed, a'i chladdu ym mynwent Nantperis. Ni fyddai ei wyres, Mary Elizabeth, ond prin ddwy ar bymtheg oed erbyn hynny, ac nid yw'n ymddangos gyda'i mam yng Nghaernarfon yng nghyfrifiad 1901, Felly, i ble'r aeth?

Y mis nesaf gobeithiaf roi peth o hanes gwerthiant eiddo'r Eglwys yng Nghymru yn ardal Llanrug a Phontrug tua pedwar ugain mlynedd yn ôl.

Os oes gennych unrhyw ymholiad neu unrhyw wybodaeth am agweddau o hanes y fro, cysylltwch â Dafydd Whiteside Thomas, Bron y nant, Llanrug, Caernarfon. Ffôn: (01286) 673515.

Am Offer Tŷ a Gardd...

FORMAG

41A STRYD FAWR, LLANBERIS
Ffôn: (01286) 872501

LLEUFER O. ac N. PRITCHARD CANOLFAN CARPEDI

WAUNFAWR

Ffôn/Ffacs: (01286) 650291



Dewis eang
o Welyau a 3P/Suites.
Llenni Venetian a Llenni Roler.
5,000 llathen sgwâr o garpedi
mewn stoc - allwch chi
fforddio prynu o batrymau?

GLANHAU CARPEDI GYDA STIMVAK

Ar Agor

9-7 pm

9-5 pm Sadwrn

Ar Gau

Sul a Mercher

SNOWDONIA PARC WAUNFAWR

- Tŷ Rhydd • Bwyd Cartref • Prydau Plant
- Ystafell Deulu • Cinio Dydd Sul Traddodiadol
- Cerddoriaeth Fyw • Cwrw Go lawn

Ffôn: 650218

BETHEL

Geraint Elis, Cilgeran. Ffôn: (01248) 670726

Camera yn ngofal Richard L.I. Jones, 5 Y Ddôl. Ffôn: (01248) 670115

PARHAU TRADDODIAD.

Llongyfarchiadau i Dewi Griffiths Llwyn Eithin ar gael ei dewis i chwythu'r Corn Gwlad yng Ngorsedd y Beirdd yr Eisteddfod Genedlaethol. Bydd Dewi yn cychwyn ar ei orchwyl newydd yn seremoni cyhoeddi Eisteddfod Maldwyn ddechrau'r Haf, ac yna yn Eisteddfod Tŷ Ddewi ddechrau Awst. Dymuniadau gorau i Dewi fydd yn dilyn ôl troed John Evans Blaen Parc gynt fu'n chwythu'r corn gwlad am flynyddoedd.

MERCHED Y WAWR. Yng nghyfarfod mis Ebrill cafodd y gangen siom o ddeall ar fyr rybudd nad oedd cynrhychiolydd o Archfarchnad Tesco yn gallu dod i gyflwyno sgwrs am ffrwythau eggsotig. Yn ffodus iawn cytunodd Bethan Williams ddod i gyflwyno sgwrs am ei phrofiad yn Nepal. Diolchwyd iddi gan Mair Read, am ddod i lenwi'r bwlch ac am gyflwyniad difyr a hwyliog.

Yn ystod y cyfarfod etholwyd swyddogion ar gyfer y flwyddyn nesaf - Llywydd: Beti Owen; is-lywydd: Anita Owen; is-ysgrifennydd: Liz Watkins; Trysorydd: Gwyneth Price; is-drysorydd: Gwyneth Jones ac aelodau'r pwyllgor: Sheila Roberts, Nora Parry, Glenys Griffiths, Gwyneth Williams, Rita Williams, Ellen Ellis a Mary Evans.

Llongyfarchwyd a dymunwyd yn dda i Ffion Owen a Lois Hughes yng nghystadluauaeth ymgom dan 25 ac i Gôr Cerdd Dant, Grŵp Offerynnol a Chôr dan 12eg yr Adran Bentref yn Eisteddfod yr Urdd ym mis Mehefin.

Darparwyd y te ac enillwyd y raffl gan Ellen Ellis.

Nos Wener, Ebrill 19 bu nifer o aelodau'r gangen yn cymryd rhan mewn Cwis Hwyl yn y Stables yn Llanwnda. Roedd hwn yn ran o gwis cenedlaethol Merched y Wawr gyda phob rhanbarth yn ateb yr un cwestiynau ar yr un adeg. Rhanbarth Arfon oedd y trydydd orau drwy Gymru. Cafwyd llawer o hwyl a chrafu pen yn ystod y noson.

Mis nesaf bydd y gangen yn mynd ar daith gerdded i Gelli Gyffwrdd. Gofynnir i bawb gyfarfod wrth Tre'r Gof am 7 o'r gloch os yw'r tywydd yn caniatáu,

i gyrraedd Gelli Gyffwrdd erbyn 7.30.

CLWB BRO BETHEL. Ar Ebrill 2il cafwyd prynhawn diddorol yng nghwmni Ms Audrey Jennings, Age Concern Gwynedd a Môn pryd y siaradodd am y cymorth sydd ar gael i'r henoed. Diolchodd Mr James ar ran y clwb i Ms Jennings.

Y GYMDEITHAS LENYDDOL. Cynhaliwyd cyfarfod y mis yma yn festri'r Cysegr. Mr Elwyn Hughes, Bryn Ogwen oedd y gŵr gwadd a bu'n siarad am ramant iaith. Diolchwyd iddo gan Mrs Llinos Williams.

Ar diwedd y tymor trefnir taith ddirgel i'r aelodau gyda swper i ddiweddu'r noson. Gofynnir i bawb sydd am fynd ar y daith roi eu henw i Mrs Nora Parry neu Mrs Sheila Roberts cyn gynted a phosibl.



PRIODAS RUDDDEM.

Llongyfarchiadau i Seiriol a Beti Owen ar ddathlu eu priodas Ruddem ar y 12fed o Fai 2002. Daw'r cyfarchion oddi wrth eich ffrindiau ond yn bennaf oddi wrth Gweno, Mari, Meinir, Emma, Ffion ac Ifor.

ADRAN YR URDD BETHEL. Unwaith eto eleni daeth llwyddiant

Peidiwch gori
ar stori.
Anfonwch hi i'r
ECO

i ran yr Adran yn Eisteddfodau'r Cylch a Rhanbarth Eryri. Cawsant y darian yn y Cylch am yr adran Bentref gyda'r nifer fwyaf o farciau. Daeth llwyddiant eto yn yr Eisteddfod Sir. Dymunwn yn dda i'r canlynol fydd yn cystadlu yng Nghaerdydd: Lowri Elena Jones - Dawnsio Disgo unigol dan 12 oed; Rachel Ward - Dawnsio Disgo unigol 15-19 oed; 'Anhygoel' - Grŵp Offerynnol dan 12 oed; Côr Marged Eiry - Côr Adrannau Pentref dan 12 oed; Côr y Bwgannod - Côr Cerdd Dant dan 12 oed; Cyflwyniad Dramatig 12-15 oed yr Uwch Adran.


Hoffai bwyllgor yr Adran ddiolch yn fawr iawn i'r holl hyfforddwyr am eu hymroddiad ac i'r rhieni am eu cefnogaeth.

Dymunwn yn dda hefyd i Rhys Wyn Hughes (unawd pres dan 15), Ceri Wyn Griffith (dawnsio Disgo dan 15 oed), Meinir Hughes ac Elen Foulkes (aelodau o grŵp Dawnsio Disgo 15-19 oed) a Ffion Owen a Lois Hughes (ymgom 15-19 oed) fydd yn cystadlu yng Nghaerdydd dan enw eu hysgolion.

Llongyfarchiadau i Hanna Gwyn, Bryn Tiron am gael yr ail wobwr yn y gystadleuaeth Graffeg Cyfrifiadurol 10-12 oed yn Adran Celf a Dylunio Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd.

EISTEDDFOD BENTREF BETHEL.

Cynhelir pwyllgor Eisteddfod Bethel nos Lun, Mai 13eg yn festri Capel Cysegr.



Lowri Elena Jones - cyntaf yn Rhanbarth Eryri yn y Dawnsio Disgo Unigol dan 12 oed.



Adran yr Urdd Bethel yn ennill y darian yn yr Eisteddfod Gylch.



Dosbarth safon 5 a 6 ysgol Bethel yng nghanol y 60au gyda'u prifathro Mr Islwyn Jones. Mae rhai'n hawdd i'w hadnabod ac eraill wedi newid llawer dros y blynyddoedd.

Gwasanaeth o'r Safon Uchaf am Brisiau Rhesymol



Gwasanaeth Trylwyr
gan y bobl **BROFFESIYNOL**
Gwasanaeth Personol Cyfeillgar i **CHWI**
Y Gwasanaeth Technegol Gorau
i'ch **CAR**. Cystal â
Gwasanaeth Prif Ddeliwr
Felly, pa gar bynnag ydych
CHWI yn ei yrru,
o Audi i Zastava



GEMINI

Car neu Fan
Petrol neu Diesel
Carb. neu Chwistrelliad

bydd ein Gwasanaeth
ni yn arbed £££ ichwi
ac yn ymestyn oes eich car

AVW

YSTAD CIBYN

CAERNARFON (01286) 673559



Cefnogwch ein Hysbysebwyd

PENISARWAUN

Mrs Ann Evans, Sycharth. Ffôn: (01286) 872407

Camera yn ngofal Gwyndaf Hughes, Glascoed, Llanrug. Ffôn: 677263

YR YSGOL GYMUNED.

Dechrau tymor newydd, dechrau themâu newydd a diddorol hefyd. "Teithio" sydd dan sylw yng Nghyfnod Allweddol 1, 'Dod i adnabod Ein Bro' y mae Blwyddyn 3 a 4 a 'Ni'n Hunain' sydd yn mynd â bryd Blwyddyn 5 a 6. Dymunir pob hwyl i Flwyddyn 6 yn eu TASAU, yna bydd amser i fwynhau gweddill yr amser yn yr ysgol cyn symud ymlaen i'r Ysgol Uwchradd.

Ar hyn o bryd mae Miss Ceri Jones, myfyrwraig o Brifysgol Bangor yn treulio mis gyda Blwyddyn 3 a 4. Pob dymuniad da iddi.

PEN-BLWYDD ARBENNIG. Llongyfarchiadau mawr i Mrs Nan Evans, 26 Bryn Tirion ar gyrraedd ei phen-blwydd yn 80 oed ar 16 Ebrill. Pob dymuniad da i chi i'r degawd nesaf hefyd.

Anfonir llongyfarchiadau mawr hefyd i Mrs Ethel Jones, 6 Bryn Tirion ar gyrraedd yr oedran teg o 90 ar 24 Ebrill. Ymlaen am y teligram gan y Frenhines rwan, Mrs Jones.

GWELLHAD. Pob dymuniad da am adferiad iechyd buan i bawb ohonoch sy'n sâl yn y pentref. Deëllir fod Mr Mowll wedi derbyn triniaeth eto yn yr ysbyty. Ein cofion atoch Mr Mowll. Da deall fod Mr Ken Williams, Trem Cynfi, Waen yn gwella wedi triniaeth

fawr yn Ysbyty Gwynedd. Brysiwch wella, Ken. Y mae ein dymuniadau da am wellhad buan yn mynd i Mrs Eluned Jones, Gae Corniog hefyd, wedi triniaeth i'w phen-glin a'i chlun.

CYDYMDEIMLIR yn ddwys iawn â Bobby, Beti, Olwen, Huw a'r teulu oll ar farwolaeth eu brawd, Eric o 13 Bryntirion.

Dymuna'r teulu ddiolch o galon i bawb am y llu cardiau, galwadau ffôn, ymweliadau a phob arwydd o gydymdeimlad yn eu colled lem.

Ein cydymdeimlad llwyrfa hefyd â Mr Elwyn Williams a'r teulu, Bryn Rhydd Mawr a Mr Islwyn Williams a'r teulu, Cae'r Bleddyn yn eu profedigaeth o golli chwaer annwyl, Mrs Lilimai Evans o Wrecsam.

Ar 28 Mawrth hunodd John Ifor Jones, Plas Dulas gynt, ac yntau ond yn 47 mlwydd oed. Bu gwasanaeth cyhoeddus yng Nghapel Bosra ac yna i ddilyn ym Mynwent Santes Helen. Cydymdeimlir yn ddwys â'r teulu oll.

MARATHON LLUNDAIN. Llongyfarchiadau mawr i bawb o'r Fro a fu mor ddewr a mentro'r Marathon yn Llundain ar Sul, 14 Ebrill. Ein llongyfarchiadau gwresocaf i Eurgain Haf ar lwyddo i redeg y 26 milltir er budd Ysbytai Walton Lerpwl a Chaerdydd drwy'r elusen Tenovus. Bu'n brofiad

anhygoel a bythgofiadwy. Ie! y filltir olaf oedd y galetaf!

Da iawn chdi Eurgain, rydym oll yn edmygu dy ddewrder a'th garedigrwydd yn codi arian er budd eraill. Y mae eisoes wedi codi yn agos i £1000 o bunnoedd ac mae addewid am fwy i ddod. Da iawn ti.

DIOLCH. Dymuna Eurgain ddiolch i bawb am eu haelioni ac am y cardiau a'r galwadau yn dymuno'n dda iddi. Bu hyn o gymorth mawr i gyrraedd y llinell derfyn, a hynny o fewn amser anrhydeddus, yn enwedig i un â'i rhedodd am y tro cyntaf.

EISTEDDFODAU'R URDD. Llongyfarchiadau i bawb fu'n cystadlu yn yr Eisteddfodau Cylch a'r Sir, boed yn unigol neu mewn parti.

Pob lwc i Anest Bryn a ddaeth yn ail o dan 12 yn y Ddawns Unigol ac sydd wedi cael

gwahoddiad i gystadlu yn yr Eisteddfod Genedlaethol yng Nghaerdydd. Pob lwc i ti Anest.

YSGOL SUL BOSRA. Cynhaliwyd Cymanfa'r Annibynwyr, Cylch Cwm-y-glo yng Nghapel Ebenezer, Deiniolen ar ddydd Sul, 21 Ebrill. Diolchir i'r plant a'r athrawon am eu cyfraniad am 'Y Bugail Da' a diolchir i'r rhieni am eu cefnogaeth ac anogaeth. Byddant yn cymryd rhan yng Nghymanfa'r Methodistiaid ym mis Mehefin.


Bydd Trip yr Ysgol Sul eleni ar yr ail Sadwrn ym mis Gorffennaf. Ceir manylion pellach eto.

PWYLLGOR Y NEUADD. Tynnwyd Clwb Cant Ebrill a'r enillwyr oedd: 1. Dafydd Williams, Meini Gleision; 2. Pat Larsen, Llygad yr Haul; 3. Ann Jones, Ty'n Gerddi.

Cynhaliwyd 'Noson o Gân' nos Fercher, 1 Mai yn y Neuadd



Anest Bryn a ddaeth yn ail yn y ddawns unigol o dan 12 a sydd wedi cael gwahoddiad arbennig i gystadlu yn Eisteddfod yr Urdd.



Catrin Heledd, Siôn Dafydd ac Anest Bryn a fu'n cystadlu yn unigol yn Eisteddfod yr Urdd.



Parti Canu a fu'n cystadlu yn Eisteddfod yr Urdd.



Yn ddiweddar by Mr Green a'i ffrind, Tecs, yn yr ysgol yn arddangos hwyaid ac ieir arbennig i'r plant.

Gymuned am 6.30. Yr Arweinydd oedd Arwel Jones a chafwyd eitemau gan John Eifion, Aelodau'r Urdd a phlant yr ysgol. Y cyfeilydd oedd Marina Jones. Bydd mwy o fanylion yn y rhifyn nesaf.

ARHOLIADAU! Pob lwc i bawb ohonoch sy'n sefyll yr amrywiol arholiadau o fis Mai ymlaen. Cewch ymlacio wedyn dros yr haf. Hwyl fawr!

NEWYDDION O SELAND NEWYDD. Dyma lythyr a anfonwyd i Nain a Taid gan Efa a Iago, plant bach Gwenllian a Carl ac wyres ac ŵyr Myfanwy a Dic Parry, Tawelfa.

Helo Nain a Taid!

Sut ydych chi? Rydym ni newydd gyrraedd adref o Waitomo. Dydd Gwener fe wnaethom ni aros yn Rotorua a gwelsom Geyser. Aethom i'r Volcanic Valley i weld yr ogofâu swiffwr a'r mwd berwedig a llawer o bethau diddorol eraill. Dydd y Pasg aethom i'r 'Black Water Dry Rafting'. Roedd yna lwythi o 'glow worms' yn yr ogof, yna aethom i'r Kiwi House a gweld y ciwi a medfyll o bob math. Caswom fynd i'r Amgueddfa Ogofeydd. Roedd llawer o ogofeydd ffug yno. Gyda'r nos aethom i'r goedwig i weld mwy o 'glow worms'. Roeddent ym mhob man!

Mae'n tŷ ni yn wynebu'r môr ac o'r balconi rydym yn gallu gweld dwy ynys wahanol, 'Whate Island', ynys llawn o fyd natur gwyllt ac Ynys Wen, ynys llosgfynydd.

Mae'n braf yma.

Hwyl fawr
Efa

SPAR

Y STORFA LLANRUG

(Richard a Meirwen
Williams)

Ffôn: (01286) 672790

Ar agor bob dydd
o'r wythnos at eich
gwasanaeth

Nid oes unrhyw dâl am
ddanfôn archeb i'ch cartref
yn ardal Llanrug

I drin a thrwsio
pob math o
beiriannau gwnïo

MENAI SEWING MACHINE CENTRE

21 Stryd Fawr
PORTHAETHWY

Ffôn: (01248) 714043

neu Caernarfon

Ffôn: (01286) 674520

Edau, Nodwyddau
ac ati mewn stoc

NANT PERIS

Llinos Jones, 6 Nant Ffynnon. Ffôn: (01286) 871820

Camera yn ngofal John Pritchard, Cilfynydd, Llanberis. Ffôn: 872390

LLONGYFARCHIADAU.

Llongyfarchiadau i Gweno Pritchard, Sŵn y Nant, ar basio arholiad piano gyda anrhydedd - Dal ati!

DIOLCH. Dymuna Pat, Eilian ac Elfyn, a theulu'r diweddar Jeni Myfanwy Williams, Pennant ddiolch yn ddiffuant am bob arwydd o gydymdeimlad a chymorth a ddangoswyd iddynt yn ystod eu profedigaeth o golli mam a nain annwyl iawn. Diolch hefyd i bawb a fu'n gofalu amdani tra yn Ysbyty Gwynedd ac Eryri, ac hefyd i staff meddygfa Llanberis. Diolch o galon am y cyfraniadau hael tuag at feddygfa Llanberis a chapel Rehoboth. Diolch yn arbennig i'r Parchedig John Pritchard am ei ofal bugeiliol. Hefyd am ei wasanaeth yn y

cynhebrwng ynghyd â'r Parch Ioan Gruffudd a Mr John Hughes ac i E. W. Pritchard, Llanberis am eu trefniadau trylwyr.

BEDYDD. Bedyddiwyd Eban Peris, mab Helen a Bedwyr Gwastadnant a brawd bach Aron Gwynant, yng nghapel Rehoboth, Nant Peris yn ddiweddar, Dafydd a Heddwen oedd y rhieni bedydd a llywyddwyd y gwasanaeth gan y Parch John Pritchard.

PEN-BLWYDD HAPUS.

Pen-blwydd hapus i Gwynedd Roberts, Ystrad, yn 60 oed ar y 19eg o Ebrill. Pob hwyl ar y dathlu.

BRYSLIA WELLA.

Bryslia wella Robat Henri, Dolwen ar ôl bod am driniaeth yn yr ysbyty yn ddiweddar.

Jeni Myfanwy Williams

Yn dawel yn Ysbyty Gwynedd ar yr 23ain o Fawrth, bu farw Mrs Jeni Myfanwy Williams o Pennant, 7 Nant Ffynnon, Nant Peris yn 79 mlwydd oed. Cynhaliwyd yr angladd ddydd Iau, Mawrth 28ain yng nghapel Rehoboth.

Dyma ran o deyrnged Mr J. H. Hughes:

'Ym marwolaeth Mrs Jeni Williams collwyd cymeriad hynod ac unigryw. Yr oedd yn wraig ddeallus a diwylliedig, a meddai'r ddawn i farddoni; cyfansoddodd lu o gerddi ar achlysuron arbennig yn y Nant.

Edmygw'n ei chred yn Nuw. Bu iddi ddioddef gwaeledd blin a phoenus yn ystod misoedd olaf ei bywyd, ond daliodd i gredu yn ddiysgog yn Nuw.

Llwyddodd i greu aelwyd o'r naws orau i fagu ei phlant. O ran natur yn gartrefol, yn gweini yn ddiwyd ar ei theulu a bu'n hynod garedig i rai mewn

gwaeledd.

Nodwedd arall oedd ei chariad at ei chapel. Bu'n athrawes yn yr Ysgol Sul yn Rehoboth am ddeng mlynedd a'r hugain, ac yn drysorydd ac ysgrifennydd y capel am y deg mlynedd diwethaf. Meddai lais alto swynol a chyfoethog, ac ymddiddorai yn y canu yn y capel.

O fewn milltir sgwar y Nant, gweithiodd yn ddyfal am flynyddoedd. Cofir am ei hymdrech i geisio cadw Ysgol y Nant ar agor a llwyddwyd yn yr ymdrech honno am gyfnod.

Yr oedd yn gymdages o'r iawn ryw hefyd, yn barod i wrando, i gynghori, i gydymdeimlo ac i gymwynasau. Y mae bwlch enfawr ar yr aelwyd, y capel, a'r pentref, a theimlir ei cholli gennym oll.'

Cyfansoddodd Mr Dafydd Morris, Cefn Coch, Deiniolen y penillion canlynol er cof am Mrs Williams.

Cyngor Ysgolion Sul a Gwasanaeth Ieuenctid Eglwys Bresbyteraidd Cymru

Gair byr i'ch hysbysu am fenter sy'n cael ei gynnal ar gyfer plant ac ieuenctid yn ystod mis Gorffennaf eleni.

Y llynedd mi gofiwch i ni gynnal Cystadlaethau Athletau i blant ysgol Sul, oed cynradd ar Drac Athletau Treborth ym Mangor. O ganlyniad i lwyddiant y llynedd, dyna fydd y drefn eleni eto. Cynhelir yr Athletau ar nos Wener 12 Gorffennaf. Bydd y noson yn cychwyn am 6 y.h.

Trefnir cystadlaethau gwaywffon, rhedeg byr, rhedeg hir, naid hir a thaflu pêl. Cynhelir pob gweithgarwch yn ôl blwyddyn ysgol 3, 4, 5 a 6.

Menter newydd i ni eleni, ar gyfer ieuenctid ein hysgolion

Sul oed uwchradd, yw'r noson a gynhelir yng Nhanolfan Conway, Llanfairpwll. Noson o weithgareddau mewn Canolfan Awyr Agored fydd yn rhoi cyfle i ieuenctid weithio mewn timoedd i gwblhau Gemau Mentro (*initiative games*) ac yna cael cyfle i adeiladu rafft a'i lawnsio ar y dŵr. Cynhelir y noson hon ar nos Lun, 8 Gorffennaf. i gychwyn am 5.45 y.h.

Am fwy o wybodaeth ynglŷn â'r gweithgareddau uchod cofiwch gysylltu â ni yn fuan. Nifer cyfyngedig o le fydd ar y gweithgareddau felly cofiwch gysylltu ar eich union. A.Davies eds00e@bangor.ac.uk

Penillion coffa i Mrs Jennie Myfanwy Williams, Pennant, 7 Nant Ffynnon, Nant Peris a hunodd Mawrth 23, 2002 yn 79 mlwydd oed:

Fel un o blant y Groeslon
Y symudaist i Lanrug,
A thyfu i fyny'n Gristion
Rwyf heddiw ar y brig.

Yn wraig bur i Arthur Williams
Yn gariad pur dy blant,
Ti ddaeth fel rhodd cymwynas
A gwasanaethu'r Nant.

Tri degawd ar dy ore'
O'th wirfodd ar y Sul,
Yn meithrin plant y pentre
At droedio'r llwybr cul.

Rehoboth oedd dy allor,
O'i gynnal gwneist dy ran;
O gefnu ar y Chwefror
Cei orffwys yn y Llan.

Cei hefyd dy ddymuniad
Yn dawel a di-stŵr,
Cei brofiad o adferiad
Yng nghwmni d'annwyl ŵr.

Ocdolion erbyn heddiw
Yw plant y pentref gynt,
Yn diolch am dy sylw:
Dydd da, a hwyl dy hynt.


DAFYDD MORRIS
CEFN COCH.

Englyn er cof am Mrs Jeni Williams:

Roedd ci phentref yn ncofodd, a heulwen
yn ei theulu ydoedd;
Hael o hyd i'w chapel oedd,
Hael ei nawdd drwy'r blynyddoedd.

DAFYDD JOHN PRITCHARD,
ABERYSTWYTH.

Mae'n rhaid i mi siarad
hefo rhywun



Y SAMARIAID
Bangor
(01248) 354646

Brian a Rita
Henderson

SIOP Y PENTREF
WAUNFAWR
Ffôn: 650589

- Holl docynnau'r Loteri Genedlaethol
- Cyflenwyr bwyd anifeiliaid - 'bulk' a rhydd - y rhataf yn lleoli
- Nwyddau groser, alcohol, cardiau MANWEB
- 'Paypoint' ar gyfer talu bob math o filiau

CWM Y GLO

Mrs Iris Rowlands, Glanrafon. Ffôn: (01286) 872275

Camera yn ngofal Gwyndaf Hughes, Glascoed, Llanrug. Ffôn: 677263



Nia Wyn Hughes, 17 Dolafon a Dylan Fôn Huws, o Lanrug ar ddydd eu priodas.

CYDYMDEIMLAD. Estynnir y cydymdeimlad dwysaf â Mr Ken Williams a'r teulu. Gianbogelyn yn eu profedigaeth o golli mam a nain annwyl ym Methel, hefyd â Mrs Mari Jones, Min-y-Don yn ei phrofedigaeth o golli brawd yng nghyfraith.

Brawychwyd yr ardal drwy farwolaeth Aneuryn Foulkes, Bryn Derw, Brynrefail mewn damwain beic modur yn 24 oed. Estynnir y cydymdeimlad dwysaf a'r teulu oll yn eu profedigaeth a'u hiraeth.

PLYGU'R ECO. Er gwneud apêl am gymorth i blygu rhifyn diwethaf o'r Eco tri oedolyn a dau fachgen sef Simon a Justin Guy yn unig ddaeth. Diolch i'r ddau am weithio mor galed o hanner awr wedi chwech hyd naw o'r gloch.

CAPEL TABERNACL.

GWEITHGAREDDAU. Yn ystod y penwythnosau diweddar bu Mr Dafydd Price yn gosod drws pob ochr i'r grisiau er mwyn diogelwch a bu plant y clwb yn brysur yn ymarfer ar gyfer y Cymanfa ac yn hel sbwriel o'r cae chwarae.

Y CYMANFA. Cynhaliwyd y

Cymanfa eleni yng Nghapel Ebeneser, Deiniolen dan lywyddiaeth Y Parch John Pritchard gyda arweinydd y gân Mrs Annette Bryn Parri a Mr John Jones wrth yr organ. Cymerwyd rhan gan blant ysgolion Sul Bosra, Ebeneser, Capel Coch a'r Tabernacl. Diolchwyd i bawb am eu cyfraniad i'r Gymanfa gan Dr Graham Thomas a rhoddwyd y Fendith i derfynu gan Mr Bob Lloyd. 'Roedd y casgliad eleni yn mynd i gronfa Cymorth Cristnogol. Bydd trefn yr oedfaon am Mis Mai fel a ganlyn:

Mai 5, Clwb Y Plant am 2.00
Parch Gwynfor Williams am 4.00.

Mai 12 Clwb Y Plant am 2.00
Gwasanaeth i'w drefnu am 5.30.

Mai 19 Clwb Y Plant am 2.00
Mr Evan Jones am 4.00.

Mai 26 Clwb Y Plant am 2.00
Mr J. H. Hughes am 4.00.

DIOLCH. Dymuna Les, Moranedd, ddiolch i'w deulu, ffrindiau a chymdogion am y cardiau a'r rhoddion a dderbyniodd ar achlysur ei



Rhai o blant Capel Tabernacl, Cwm y Glo, wedi hel sbwriel o'r cae chwarae.

benblwydd a'i ymddeoliad yn ddiweddar.

DIOLCH. Dymuna Dylan a Nia ddiolch yn fawr i'w perthnasau, cymdogion a ffrindiau am yr holl anrhegion, arian a thalebau a dderbyniasant ar achlysur eu priodas ar 23 Mawrth yn Eglwys St Padarn, Llanberis. Diolch yn fawr iawn.

YSGOL CWM-Y-GLO

Cynhaliwyd Ffair Basg yn yr ysgol ar 20 Mawrth. Gwnaed elw o £346.00 ac enillwyd y raffl gan: Delyth Roberts, Avril Jones, Daniell Linden, Mr Bill Davies, Gwion Hughes, Paul Lockety, Sian Jones, Daniel Land, Sion Arfon Hughes, Christopher Hulme, Ben Rowlands, Kirsty Jordan, Osian Linton Davies a Lesley Willson. Diolch i bawb am eu cefnogaeth.

Mae Ocsiwn Addunedau wedi ei drefnu erbyn 23 Mai yn y Fricsan am 7 o'r gloch. Yr ocsiwniâr fydd Mr Dafydd Hardy. Os oes gennych Adduned i'w chynnis cysylltwch â Jenny ar 871 200 neu galwch i mewn i'r ysgol. Edrychwn ymlaen i'ch gweld ar y noson.

CYMANFA'R ANNIBYNWYR

CYLCH CWM-Y-GLO.

Cynhaliwyd y Gymanfa bawn

Sul, 21 Ebrill yng Nghapel Ebenezer, Deiniolen. Diolchir i'r Arweinydd, Annette Bryn Parri am ei dull cartrefol braf hefo'r plant ac i John Jones am gyfeilio. Braf oedd gweld cynifer wedi dod i wrando ar aelodau'r Ysgolion Sul yn cymryd rhan. Diolchir i bawb a gyfrannodd ac a gefnogodd y Gymanfa eto eleni

Wavell Roberts

CIGYDD

London House

LLANRUG

Ffôn: (01286) 673574

PEN CIGYDD Y FRO

Yrŵyn lleol mwyaf blasus

Selsig cartref

Cigoedd parod i'w bwyta
Archebion ar gyfer y rhewgist

MYNNWCH Y GORAU

DEWCH ATOM NI!

LLYSIAU, FFRWYTHAU, BWYDYDD
AC ANGHENION ANIFEILIAID ANWES

GARTH MAELOG

51 Stryd Fawr, Llanberis

Ffôn: 870840

DODREFN PERKINS

(Safle'r hen Nelson)
CAERNARFON

Ffôn: (01286) 676 040

- Pob math o ddodrefn tŷ
- Cegin, 'stafell fyw, llofft
- Prisiau cystadleuol
- Danfon am ddim i holl ardal Bro'r Eco

Alwyn a Sarah Jones
BLODAU

RACCA

PENISARWAUN

Blodau ar gyfer pob achlysur

Dewis da o Lysiau Fferm

Wyau Free Range

Ar agor saith diwrnod

870605



Danfon 7 diwrnod
yr wythnos
drwy'r fro

Yn ystod tri mis cyntaf eleni daeth dwy ymwelydd o dramor i weithio'n wirfoddol i Antur Waunfawr, a bu'r profiad yn un gwerthfawr ac arbennig iawn iddynt hwy ac i'r Antur. Roedd Edwina Lawson, 21, o Baris, Ffrainc a Bola Ademigu, 17, o Osogbo, Nigeria yn ymweld â'r ardal fel rhan o gynllun Gwobrau Mileniwm Ieuenctid y Byd sy'n cael ei redeg ar y cyd gan y *Prince's Trust* a'r Gwasanaeth Gwirfoddoli Dramor (VSO).

Roedd y ddwy yn rhan o dîm o 16 o wirfoddolwyr ifanc – hanner o Brydain a hanner o Nigeria a De Affrica – fu ar brofiad gwaith yn ardal Caernarfon a Bangor ar gyfer rhan cyntaf o'r cynllun. Y bwriad yw addysgu'r rhai sy'n cymeryd rhan am wahanol ddiwylliannau'r byd, trwy hybu dealltwriaeth o wahanol agweddau a diwylliannau cymunedau amrywiol. Ar gyfer ail ran y cynllun mae'r grŵp wedi symud i Nigeria i dreulio cyfnod o dri mis arall yn gwirfoddoli yno.

Yn ystod eu hymweliad bu Edwina a Bola yn byw gyda theulu yn Y Fron, ger Caernarfon. Cyn iddynt bacio eu bagiau a gadael Gwynedd am Nigeria, fe ysgrifennodd y ddwy erthygl ar gyfer Eco'r Wyddfa yn sôn am eu profiad yn yr Antur. Dyma beth oedd eu hargraffiadau o'r Antur a'r gymuned leol.

Erthygl Bola Ademigu, Nigeria
Pan ddes i Gymru o Nigeria doedd gen i ddim bwriad gweithio hefo pobl anabl. Pan ofynnwyd i ni ddewis ein profiad gwaith, wnes i ddim rhoi Antur Waunfawr fel fy newis cyntaf ond dywedodd fy arolygwr mai yno roeddwn yn mynd. Daeth hyn a thristwch i mi o ystyried fy nghefnidir yn Nigeria – meddyliais pa mor anodd yw hi gartref i weithio gyda phobl anabl a'r ffordd y macnt yn cael eu trin yno.

GWIRFODDOLWYR O DRAMOR YN ANTUR WAUNFAWR



Edwina a Bola yn Antur Waunfawr.

Penderfynais roi cynnig arni.

Ond mae gweithio gyda Antur Waunfawr wedi newid fy meddylfryd. Wnes i erioed feddwl y gallai pobl anabl wncud gwaith mor wych na bod mor gymwynasgar. Rydw i wedi dysgu llawer o fy mhrofiad yn yr Antur sy'n mynd i fy helpu yn y dyfodol – sef y dylai cyflcoedd fod ar gael i bawb.

Er fod gennyf eisoes wybodaeth am arddio, rwyf wedi dysgu sgiliau newydd yn Waunfawr, hollol wahanol i'r dulliau a ddefnyddiwn ni yn Nigeria. Hefyd dysgais rhagor am waith celf, fel gwneud cardiau gyda gwahanol stampiau – eto rhywbeth, gartref, na fuaswn wedi cael y cyfle i'w wneud. Mae'n rhaid i mi ddatgan fy niolch i'r V.S.O. am gael dod ar y fenter hon ac mae fy niolch yn fwy fyth i

weithwyr Antur Waunfawr am droi'r cyfan yn realiti.

Gyda fy mhrofiadau newydd byddaf yn gallu, pan ddychwelaf i Nigeria, wneud cyfraniad i fywydau y bobl yno, yn enwedig, gobeithio, yn y ffordd yr ymdrinir â phobl gydag anableddau.

Erthygl Edwina Lawson, Ffrainc

Does dim o'r cynllun Gwobrau Mileniwm Ieuenctid y Byd yma wedi bod yn agos i'r hyn roeddwn wedi ei ddisgwyl. Nes i erioed ddychmygu y buaswn yn byw mewn pentref mynyddig bychan, nac ychwaith y buaswn yn mwynhau'r profiad. Dwi ddim yn credu imi erioed ddychmygu fod yna fynyddoedd yng Nghymru, na golygfeydd mor wyllt a phrydferth.

Ond cefais y syrpreis mwyaf o

weithio yn Antur Waunfawr. Er i mi wirfoddoli mewn ysgol i blant ag anableddau dysgu nôl yn Ffrainc, wnes i erioed ofyn i mi fy hun sut fath o hyfforddiant a gwaith oedd yn wynebu'r disgyblion unwaith roeddynt wedi gadael yr ysgol. Mae Antur Waunfawr wedi agor fy llygaid i'r posibilrwydd o weithle sy'n gwerthfawrogi a defnyddio galluedd pob unigolyn.

Trwy fy sgiliau diymhongar fy hunan rwyf wedi cyfrannu i fusnes yr Antur drwy greu cardiau cyfarch ar gyfer y siop a helpu yn y tai gwydr a'r gerddi. Ond i fod yn deg, mae'r tri mis diwethaf yn yr Antur wedi rhoi llawer mwy i mi na allaf i roi yn ôl iddyn nhw. Rydw i wedi dysgu sgiliau ymarferol yn amrywio o wneud papur i greu roceri, o wneud siâp tylluan allan o glai i baratoi toriadau planhigion ar gyfer eu plannu. Mae gweithwyr yr Antur wedi fy nysgu fod canolbwyntio ar berthynas ddynol hapus a chymeryd balchder yng nghwaith yr unigolyn yn arwain at amgylchedd iach a chyfoethog.

Ymddengys fod yr Antur yn deillio o gyfuniad prin o gynhwysion: sylfaenydd gyda gweledigaeth; cefnogwyr hael a theyrngar a gweithwyr llawn hwyl sy'n gwybod beth yw gwaith caled a chwsmeriaid diolchgar. Ni fedraf, hyd yn oed yn fy mreuddwydion, ganfod unrhyw le arall gyda'r gynhyrsgaeth brin hon o adnoddau, materol ac ysbrydol, yn cyfuno. Pe gwyddwn y rysait awn a fo gyda mi ple bynnag yr âf.



Y gwirfoddolwyr ifanc o Nigeria, De Affrica a Ffrainc a fu'n gweithio yn Antur Waunfawr.

YSGOL BRYNREFAIL

Cofnodi Cyrhaeddiad

Ar ddydd Iau, Ebrill 11eg cyflwynwyd Tystysgrifau Cofnodi Cyrhaeddiad i ddisgyblion blwyddyn 11 gan Is-gadeirydd y llywodraethwyr, Mrs Carys Morris o Lanberis.

Cafodd y disgyblion brynhawn difyr yn cymdeithasu a sgwrsio dros banded a chacen.





Disgo'r Sêr



Cafwyd gwledd o noson pan ddaeth 'Sêr' y Sgrîn i ddawnsio yn niso Ysgol Brynrefail.

Ymysg y plant roedd Austin Powers, Men in Black, Blues

Brothers, Scream, James Bond, The Rock, Pavarotti, Britney Spears, Westlife ac Ali G., ac wrth gwrs ni fuasai'n hwyl heb gael sbort am ben yr athrawon.

Wel os mai nhw oeddynt!

Ymddangosodd Cinderella, Indiana Jones, Supergirl, Braveheart, Pocahontas, Lara Croft, Cleopatra a Sister Act a

phawb yn dyfalu pwy oeddynt.

Noson o hwyl go iawn, a phawb yn mwynhau. Diolch i bawb ddaeth i wneud y noson yn gymaint o lwyddiant.



Arholiadau

Tymor arholiadau wedi cyrraedd unwaith eto ac o ddechrau. Mai bydd blynyddoedd 9, 11, 12, 13 yn chwysu wrth eu gwaith yn y neuadd.

Pob lwc iddynt i gyd a gobeithio daw llwyddiant i'w rhan.

Bu'r disgyblion canlynol yn llwyddiannus yn cwblhau'r Rhan Gyntaf o'r wobr Achubwr Bywyd Ifanc (Hŷn).

Mae'r tystysgrif yn cael ei rhoi ar ôl i'r disgyblion ddilyn cwrs hyfforddiant Cymorth Cyntaf mewn Asesiad Dechreuol, Yr Ystum Adferol,

Tystysgrif Cymorth Cyntaf

Galwadau 999, Tagu ac Asthma.

Llongyfarchiadau iddynt i gyd.

David Crane (Deiniolen)

Emma Parry (Llanrug)

Emma Taylor (Deiniolen)

Steven Williams (Llanrug)

Rachael Owen (Caernarfon)

Luke Roberts (Cwm-y-Glo)

Wayne Bennett (Bethel)

Trevor Evans (Llanrug)

LLANBERIS

Carnifal Llanberis 2002

Yn dilyn disco dewis brenhines y Carnifal a gynhaliwyd yn ddiwedd yr y Ganolfan, fe ddewiswyd Lindsey Ann Jones, 20 Maes Padarn Llanberis fel Brenhines Y Carnifal a'i morwynion ydyw Lowri Elenid Davies, Bryntirion, Llanberis a Nia Wyn Evans, 1 Tal Afon Llanberis, Dymunwn pob llwyddiant iddynt am y flwyddyn i ddod.

CYMANFA'R ANNIBYNWYR CYLCH CWM-Y-GLO.

Cynhaliwyd y Gymanfa bnawn Sul, 21 Ebrill yng Nghapel Ebenezer, Deiniolen. Diolchir i'r Arweinydd, Annette Bryn Parri am ei dull cartrefol braf hefo'r plant ac i John Jones am gyfeilio. Braf oedd gweld cynifer wedi dod i wrando ar aelodau'r Ysgolion Sul yn cymryd rhan. Diolchir i bawb a gyfrannodd ac a gefnogodd y Gymanfa eto eleni.



Lindsey Ann Jones, brenhines Carnifal Llanberis gyda'i morwynion Lowri Elenid Davies a Nia Wyn Evans.

GWASANAETH ARGYFWNG PLYMIO

24 awr y dydd - 7 diwrnod yr wythnos

PLUM24CYM

Gwaith Plymio - Gosod Ceginau a Bathrwm
Gwaith cynnal a chadw o bob math

Cysylltwch â DOUG JONES, BRON EIFION, WAUNFAWR
Ffôn: (01286) 650363 (0797) 0318996 (symudol)



CASTELL BOWNSIO AR GYFER POB ACHLYSUR

Down â fo atoch
a'i nôl wedyn

Ffôn: 871782

GORS BACH PANEL BEATING SERVICE

yn LLANRUG
ar gyfer eich
holl anghenion

- Trin cyrff ceir
- Gwaith Mecanyddol
- Gwasanaeth/Service
- Valleting

(01286) 870814



Un o'r Sêr a fynychodd y disgo yn Ysgol Brynrefail (gweler y stori ar y dudalen ganol).

Ar achlysur eu hymddeoliad
dymuna

Gwyneth ac Eifion Roberts

Becws Eryri

ddiolch o galon am yr holl
gefnogaeth a chymwynasau
a gawsant ar hyd y
blynyddoedd.

GWYNETH ROBERTS

84 Stryd Fawr, Llanberis

Ffôn: 870491

CAFFI 'BWYTY ERYRI'

TEGANAU, CARDIAU

MELYSION

ANRHEGION



Bara Ffres

Teisennau

Priodas, Bedydd

Pen-blwydd ac ati

Peis, Rholiau Sosej

Pasteiod, Teisennau Hufen

Teisennau Plât, Torth Gyrains ac ati

BECWS ERYRI

Stryd Fawr, Llanberis 870491



Ar Ben Arall y Lein

Mae 'sgota a'r byd sy'n ymwneud â'r diddordeb yn ofnadwy o gymhleth. Rhai cisiau mynd yn ôl i'r hen oes, rhai cisiau i bopeth aros fel ag y mae, ond cael mwy o bysgod. Roedd llawer mwy yn yr hen oes medda nhw! Fel hogyn ifanc tydw i ddim yn cofio'r hen oes!! Hefyd mae rhai sydd eisiau symud ymlaen a datblygu a gwneud y mwyaf sydd bosib o'r adnoddau sydd yn ein meddiant, er mwyn y clwb, ein haelodau a'r gymuned rydym yn rhan ohoni ac yn dibynnu cymaint arni i weithredu.

Ymysg hyn i gyd mae dadlau brwd a, hyd yn hyn, mae'r garfan sydd â'i golwg at y dyfodol yn cario'r dydd. Anodd fuasai credu, wrth edrych ar y datblygiadau a'r gwelliannau i'n hadnoddau y buasai unrhyw ffordd arall, ond dadlucun sy'n chwyrnu a diflas iawn yw hyn. Nid oes a wnclo'r dadlau â bro'r Eco na Lleu, diolch am hynny. Mae carfan fechan o dref Caernarfon yn dadlau y dylai'r pysgota sydd ym mherchnogaeth Cyngor Gwynedd, ac a oedd wedi ei brydlesu i'r gymdeithas ers dros 40 mlynedd, gael ei drosglwyddo i fod yn bysgota rhad ac am ddim i bawb. Trychineb fuasai hynny. Nid am fod y pysgota am ddim, dyna nod pawb, ond oherwydd y diffyg rheolaeth fuasai'n dilyn. Dyna oedd y rheswm pam y rhoddwyd y brydles i'r clwb, yr holl flynyddoedd yn ôl, oherwydd bod dulliau yn cael eu defnyddio yma oedd yn niweidiol i holl ddyfodol y Seiont. Rhaid peidio anghofio y buasai lobsnows ar ddarn bychan o'r afon yng Nghaernarfon yn effeithio ar ein cymunedau ar hyd y Dyffryn i Nant Peris.

Gobeithio yn wir y bydd synnwyr cyffredin yn trechu, ac y bydd yn bosib symud ymlaen â'n cynlluniau i adfywio Parc Caernarfon trwy glirio'r llyn,

creu llwybr o'i amgylch a chreu llwyfannau pysgota

* * *

Troi rwan at y ddeorfa ac mae'n werth gweld datblygiad y torgoch bach. Erbyn hyn mae'r cynllun magu yn rhedeg ers bron i bum mis ac yn hynod o lwyddiannus. Cryn siom yw nad oes unrhyw un o'r Cyngor Cefn Gwlad, sydd wedi noddio'r pysgodyn yma â'i gynfin o ddiddordeb gwyddoniaeth arbennig, yn dangos diddordeb yn nilyniant y cynllun. Mae gwaith criw y ddeorfa yn haeddu canmoliaeth o'r radd uchaf. Criw ydynt sydd wedi addysgu eu hunain yn y grefft anodd o fagu pysgod. Mae'n sicr, os bydd y torgoch ar gael i'w flasu ymhen ychydig fisoedd, bydd digon o ganmoliaeth ar gael am sgram am ddim. Ond ar nodyn difrifol, os bydd pethau'n llwyddianus, mawr fydd yr hwb i economi'r ardal.

* * *

O symud at Ddyffryn Nantlle, mae cais cynllunio wedi ei wncud i Awdurdod Parc Eryri i addasu'r llwybr at Lyn Nantlle ac hefyd i adailadu glanfa yn rhedeg allan i'r llyn. Bydd yn bosibl angori'r cychod wedyn oddi wrth y glannau a'i gwneud yn haws i'w defnyddio. Byddai hyn hefyd yn atal y difrod blynyddol i waelod y cychod, sy'n digwydd wrth eu tynnu o'r dŵr ar ddiwedd diwrnod o 'sgota.

Hefyd yr wythnos nesaf bydd Asiantaeth yr Amgylchedd yn gosod rhwydi ger all-lif y llyn i asesu effaith y gwyllanod a'r cynffonwr a'u budreddi ar y brithyll. Gobeithio'n wir y bydd y dystiolaeth yn ddigon o sbardyn i orfodi perchnogion tomen Cilgwyn i atal yr adar yma rhag bwydo ar y sbwriel.

Mae unigolion yn awr am gael dirwy o £25 os cânt eu dal yn bwydo gwyllanod môr. Faint o ddirwy fuasai'r cwmni yma yn ei gael yn ddyddiol hefo'r cannoedd sy'n bwyta yno bob dydd.

* * *

Beth am y 'sgota ta? Wel mae Llyn Padarn yn 'sgota'n weddol, gyda'r brithyll mewn cyflwr ardderchog.

Newydd ardderchog hefyd yw fod maint y torgoch yn gostwng, arwydd pendant fod pethau'n gwella. Mae nifer dda o'r gleisiaid yn dechrau dangos. Gobeithio fod pawb yn deall mai drwy ymdrech y Gymdeithas mae hyn yn bod. Cysidwrch beth sy'n digwydd heddiw a'r Lyn Tegid: arwyddion dim nofio, dim anifeiliaid i fynd i'r ddyfroedd; yr algai gwyrd-dlas ymhobman, a phobl yn cadw draw. Dyna fuasai'r stori yn Llanberis hefyd.

CAEATHRO

Clive James, Hafan, Bryn Gwna.
Ffôn: (01286) 679501 (gwaith). 677438 (cartref)

TYNFA MISOL. Enillwyr y tynfa ar gyfer mis Ebrill oedd £40: (8) Ffransis Wyn Williams, Bodwyn; £25: (50) Tony Griffiths, Annedd; £15: (29) Hywel Evans, Rhyddallt Ganol; £5: (91) Heather Thomas, 4 Bryn y Gôf.

Trwy garedigrwydd yr hapchwaraewyr lleol, talwyd cost y wyau Pasg i blant iau'r pentref. Diolch i chi am eich cefnogaeth ffyddlon.

GENEDIGAETHAU. Llongyfarchiadau i Jill ac Aled, Llwyn Onn, Stad Glyndwr ar enedigaeth hogyn bach newydd, Sion Ynyr. Hefyd hogyn bach, Thomas i Meinir a Jason, 5 Erw Wen. Hogyn bach eto, lestin Rhys i Arwel ac Llio, Chwiban y Gwynt.-Tîm pêldroed y dyfodol, efallai?

ADREF O'R YSBYTY. Dyna yw hanes Mrs Eluned Griffith, 15 Tai Glan Gwna. Treuliodd gyfnod yn Ysbyty Gwynedd ac yn Ysbyty Eryri, ond mae'n awr adre ac yn gwella. Hefyd, Michael Wyn Williams, Bodwyn, yn gwella gartref ar ôl cyfnod yn Ysbyty Gwynedd.

PENBLWYDDI. Cafodd Heather Thomas, 4 Bryn y Gôf, ei phenblwydd yn 21 oed, a Dafydd Roberts, 5 Tai Brynteg yn 65 oed -mae wedi cael ei docyn bws am ddim!

SYMUD TAI. Mae Heulwen Atkinson wedi symud o Garreglwyd i Lanberis a Shaun a Buddug wedi symud i Garreglwyd. Trigolyn newydd Bryn Bela, Tai Bryngwna yw Catrin Jones.

GWASANAETHAU'R CAPEL. Gan fod y gwaith adeiladu wedi cymryd mwy o amser na disgwylir, cynhelir y gwasanaethau yn Ystafell y Bwrdd, Garej Gwalia o

Oes rhai yn cofio'r arwyddion ar Llyn Padarn yn 1992? 'Dim Nofio'. Diolch i'r drefn ein bod wedi gweithredu yr amser hynny. Ond cysidwrch, mae wedi cymryd bron i ddeng mlynedd i weld gwelliant pendant. Faint gymerith hi i Lyn Tegid ddechrau mendio tybed.

Oes rhywun wedi cydnabod gwaith y Gymdeithas yn hyn i gyd? Peidiwch a son! Dywedodd rhywun wrthyf ychydig yn ôl, 'Fuasai'n well gweld y llyn yn troi'n wyrdd eto. Roedd o'n edrych mor brydferth.' Weithiau mi fyddai'n teimlo fel rhoi'r ffidil yn y to.

* * *

Wrth gloi, rhaid sôn am Lyn Dywarchen. Mae'r 'sgota yma'n dda iawn o gysidro'r tywydd oer. Rwyn sicr fod y Tylwyth Teg wedi rhannu'r gyfrinach am y plu llwyddiannus hefo rhai. Rhaid mynd yno i geisio cael sgwrs â hwy, diwrnod niwlog yw'r gorau medda nhw!

Hwyl a fflag unwaith eto. A rhaid rhoi fy enw llawn o hyn ymlaen. Rhaid defnyddio'r Price 'dachi'n gweld!!!

Huw Price Hughes

hyd. Dyma'r amserlan ar gyfer mis Mai:

5 Mai, 11.00 Ysgol Sul,
2.00 Parch Dafydd Hughes

12 Mai, 11.00 Ysgol Sul

19 Mai (Pentecost), 11.00 Ysgol Sul,
2.00 Parch Gwenda Richards

26 Mai 11.00 Ysgol Sul

LLWYDDIANT EISTEDDFODOL A CHWARAEON. Llongyfarchiadau i Lowri, 4 Erw Wen ar lwyddiant yn Eisteddfod y Sir (Urdd) yn Mangor, gyda ail safle yn y llefaru o dan 8 oed a trydydd yn yr unawd o dan 8 oed, hefyd Hannah Hughes ar lwyddiant mewn cystadleuaeth jiwdo yng Ngogledd Orllewin Lloegr gyda'r fedal aur iddi.

YMDDYGIAD

GWARTH-GYMDEITHASOL.

Yn anffodus, mae ymddygiad gwrth-gymdeithasol wedi cyrraedd Gaeathro. Mae sawl un yn mynnu drysu rhwng rôl lloches i deithwyr bws a chyflysterau cyhoeddus. Eraill sy'n cymryd caniau a photeli alcohol i'r cae chwarae a gadael y caniau fel 'sbwriel a malu'r poteli fel caiff niwed ei wneud i blant ac anifeiliaid. Pe bai gwybodaeth ar gael ynglŷn â phwy sy'n gyfrifol, dylid cysylltu ag aelod o Bwyllgor y Gae Chwarae neu gynghorydd lleol.

PWYLLGOR CODI ARIAN. Cynhaliwyd cyfarfod o'r pwyllgor nos Fawrth 23 Ebrill yn Ystafell y Bwrdd, Garej Gwalia. Mae'r trefniadau'n datblygu ar gyfer y BBQ yn Llain Meddygon ar nos Wener, 21 Mehefin. Bydd cyfleoedd eraill i brynu dyddiad pen-blwydd gwell i'r dyddiadur cylchredeg. Yn amodol ar leoliad ffurfiol addas, ceisir llwyfanu drama newydd Cwmni Bara Caws ym mis Hydref. Disgwylir cynnal taith gerdded noddedig i blant yr Ysgol Sul a'u cyfeillion ddydd Sul, 21 Gorffennaf a chynnal stondinau ar ddiwrnod Miri Haf ddiwedd mis Gorffennaf. Hefyd bydd noson Lobsnows a Gwin yng Ngharrog ar 1 Tachwedd.

Ar gyfer y Pwyllgor nesaf, ar nos Fawrth, 21 Mai am 7.30 yr hwyr, yn Ystafell y Bwrdd, Garej Gwalia bydd rhaid datblygu'r digwyddiadau uchod a thrafod syniadau newydd ar gyfer mis Medi ymlaen.

IEUAN WILLIAMS

Glanffrwd
DEINIOLEN
(01286) 870484

➤ Bysiau o 12 i 53 sedd

➤ Teithiau Lleol a Thramor

➤ Gwaith Contract

➤ Telerau arbennig i bensiynwyr, myfyrwyr a phlant ysgol



Llanberis 870203

Ar agor trwy'r flwyddyn ar gyfer priodasau, dathliadau, bedydd, pen-blwydd a phob achlysur arbennig arall.

Gallwn drefnu adloniant - disgo a.y.y.b.

Bwrdd Pŵl ar gael

Bwydlen Bar a Restaurant

Trwydded lawn tŷ tafarn.

LLANRUG

Eryl Roberts, 3 Bryn Moelyn. Ffôn: (01286) 675384

Camera yn ngofal Gwyndaf Hughes, Glascoed, Llanrug. Ffôn: 677263

DIOLCH. Dymuna Mrs Mona Griffith ac Alwyn, Orwig House ddiolch i'r teulu, ffrindiau a chymdogion am bob arwydd o gydymdeimlad ddangoswyd atynt yn eu profedigaeth o golli ei gŵr Robin a thad Alwyn a taid Rhys. Diolch am yr holl gardiau, blodau, galwadau ffôn a'r rhoddion hael o £750 tuag at Feddygfa Waunfawr ac Uned Gofal y Galon Ysbyty Gwynedd. Diolch arbennig i'r Parch Bryn Williams a Dafydd Hughes, ac i Mrs Cerid McKinnon am y lluniaeth. Hefyd i Mr Gwynfor Jones am ei ofal gyda threfniadau'r angladd.

PLAID CYMRU. Cafwyd sgwrs ddiddorol gan Gwen Aaron, Nos Fercher, Ebrill 17, yng Nghanolfan Gymunedol Penisarwaun. Mae Gwen sy'n gyn-athrawes mewn gwyddoniaeth yn Ysgol Tryfan, Bangor, newydd ddod yn ôl o Nepal, ond hanes ei theithiau yn Seland Newydd a gawsom Nos Fercher, gyda sleidiau yn rhoi cipolwg ar y wlad hardd honno, ei mynyddoedd a'i llynnoedd. Noson hynod o ddifyr.

Helfa Drysor sydd nesaf ar y rhaglen, Nos Fercher, Mai 15, wedi ei threfnu gan Rhodri a Gwion Llwyd; croeso cynnes i bawb i ymuno yn yr hwyl, bydd yr Helfa'n cychwyn o Ysgol Brynrefail am 6.30 o'r gloch.

MERCHED Y WAWR.

Croesawodd y llywydd, Megan Roberts yr aelodau i'r cyfarfod a gyhaliwyd yn y Ganolfan Gymuned nos Fawrth, 9ed Ebrill. Llongyfarchwyd Dylan, mab Olwen a Goronwy Hughes, a Nia ar eu priodas yn ddiweddar.

Cadarnhawyd y trefniadau ar gyfer y Cwis Hwyl ar 19eg Ebrill a diolchwyd i Mary Roberts am gynrychioli'r gangen ar y daith gerdded a gynhaliwyd ym Mharc Glynllifon ar 6ed Ebrill. Bydd aelodau'r gangen yn cynorthwyo i gasglu arian tuag at Ymchwil y Galon rhwng 20 Mai a 1af Mehefin.

Rydym, fel mudiad, yn chwilio am luniau o fywyd merched rhwng 1920 a 1960 ar gyfer Prosiect Hanes Llafar - Menywod yng Nghymru. Tybed oes gennych chi luniau ohonoch yn yr ysgol, yn y gwaith neu mewn priodas. Beth

am lun ohonoch yn magu babi, yn godro neu'n dawnsio? Byddai lluniau o gymdeithasau lleol, mudiadau gwirfoddol neu weithgaredd gwleidyddol yn hynod ddiddorol. Os gallwch roi benthyg lluniau i ni byddai Megan Roberts neu Nan Humphreys yn falch o glywed gennych.

Jean Parc Jones o Ddeiniolen oedd y wraig wadd y mis hwn. 'Roedd Jean a'i ffrindiau wedi penderfynu mynd ar wyliau i ddathlu'r ffaith eu bod wedi cyrraedd oedran arbennig yn ystod y flwyddyn 2000. A pha ffordd well i ddathlu hynny na mynd ar un o deithiau Elvey MacDonald i Batagonia. Diolchodd Ann Evans iddi am ein tywys ar y daith drwy gyfrwng sleidiau a detholiadau o farddoniaeth a rhyddiaith. Cafwyd noson hynod o ddiddorol.

Diolchodd Heulwen i Ann, Margaret a Jean am baratoi'r baned. Bethanne enillodd y raffl.

Bydd y cyfarfod blyneddol yn cael ei gynnal y mis nesaf. Gofynnir i'r aelodau gyfrannu rhywbeth melys neu sawrus ar gyfer y bwffe bys a bawd. Os oes gennych blanhigion i'w rhannu hefyd - gorau oll. Dewch felly i rannu a blasu ar Fai 14eg.

YSGOL GYNRADD LLANRUG CYSTADLEUAETH LLIWIO DEBENHAMS.

'Doedd y gwaith o feirniadu'r gwaith lliwio wyau Pasg, cystadleuaeth Debenhams ddim yn hawdd yn Ysgol Gynradd Llanrug a dymunwn ddiolch i Mrs Moira Ellis o Frynrefail am ymgymeryd â'r gwaith.

Dyfarnodd waith Shannon Owen, o'r Feithrin, Gwenno Gibbard Bl 3 a Sophie Owen Bl 6 yn fuddugol a derbyniodd y dair dedi bêr bach del yn wobwr.

Aeth y gwaith buddugol ymlaen i'w feirniadu drwy Ogledd Cymru, ac yn wir i chi derbyniodd Gwenno a Sophie wobwr o hanner can punt yr un i'w gwario yn siop Debenhams.

Roedd Mrs Ellis yn eitha agos i'w lle.

YR URDD. Llongyfarchiadau i Declan Jones Bl 6 ar ei lwyddiant



Dyma Shannon, Gwenno a Sophie a ddaeth yn fuddugol drwy'r ysgol gyda'u gwaith lliwio wy Pasg



Dyma Declan Jones a fydd yn cystadlu yn Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd.

yn y gystadleuaeth Unawd Pres yn yr Eisteddfod Sir. Bydd yn awr yn cynrychioli Sir Eryri yn Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd yng Nghaerdydd ddechrau mis Mehefin. Dymunwn yn dda iti Declan.

Cafodd amryw o'r aelodau gyfle i gymryd rhan yn y Ras Traws Gwlad a gynhaliwyd drwy drefnwyr yr Urdd, ar dir Glynllifon.

Dymunwn ddiolch i'r rhieni sydd wedi bod mor barod i gefnogi'r gweithgareddau ac i gludo'r plant i wahanol weithareddau'r Urdd drwy'r flwyddyn ac am eu cefnogaeth iddynt.

Y SEFYDLIAD COFFA.

Ers agoriad swyddogol Y Sefydliad ddiwedd Awst y llynedd mae'r adeilad wedi bod yn fwrwm o wahanol weithgareddau fore, prawn a nos bob dydd o'r wythnos. Bu'n galonid i'r Pwyllgor Rheoli weld cymaint a chystal defnydd o'r adeilad ar ôl blyneddodd o ymgyrchu a chasglu arian i sicrhau canolfan sy'n amlwg o fudd i bob carfan o'r gymdeithas. Nid yw'n ormodiaith dweud fod nifer o bentrefi cyfagos yn cenfigennu o weld ffrwyth llafur trigolion Llanrug.

Am 7.00 o'r gloch, nos Lun 13eg o fis Mai, cynhelir Cyfarfod Blyneddol Y Sefydliad Coffa. Estynnir gwahoddiad cynnes i bawb o drigolion Llanrug i'r cyfarfod (mae lle i eistedd i 80 o bobl, felly dowch yn gynnar!) Y gobaith yw y daw cynrychiolwyr o'r holl wahanol fudiadau sy'n defnyddio'r adeilad neu sy'n bwriadu defnyddio'r adeilad yn ystod y misoedd i ddod. Mae angen cymorth i gynnal yr adeilad er mwyn cadw'r brwdfrydedd yn effro ac i baratoi, gobeithio at ychwaneg o welliannau. Felly, gwnewch yn siwr fod eich

mudiad/cymdeithas/clwb chwi yn cael ei gynrychioli yn y Cyfarfod Blyneddol, a dewch draw i gynnig eich cefnogaeth.

DIOLCH. Dymuna Dylan a Nia ddiolch yn fawr i'w perthnasau, cymdogion a ffrindiau am yr holl anrhegion, arian a thalebau a dderbyniasant ar achlysur eu priodas ar 23 Mawrth yn Eglwys St Padarn, Llanberis. Diolch yn fawr iawn.

DYMUNA Mrs Annie Jones, Eilionwy, Pontrhythallt ddiolch o galon i'm cyfeillion, pell ac agos, am y llu cardiau ag anrhegion a gefais ar achlysur fy mhen-blwydd yn 97 oed.

DIOLCH. Nos Wener, 19 Ebrill fe gynhaliwyd Noson Goffi a Bwrdd Gwerthu yn yr Ysgol Gynradd. Diolch i bawb a gymerodd ran yn y gweithgareddau. Gallwn helpu pobl dlawd Bangladesh wrth gefnogi gweithgareddau yn ein hardal drwy gydol y flwyddyn 2002.

CYDYMDEIMLAD. Bu farw Mr Tegid Jones (Brynrefail gynt) yn 60 oed. Anfonwn ein cydymdeimlad llwyrfa â'i frawd, Emyr Jones, Janice a Rhys, Glanffynnon a'r teulu i gyd yn eu profedigaeth. Cyn ŵr camera gyda'r BBC oedd Tegid ac roedd yn amlwg iawn ei fod mor boblogaidd yn ôl y nifer o ffrindiau a chyd-weithwyr ddaeth i'r angladd o Gaerdydd.

MARWOLAETH SYDYN. Daeth y newyddion trist am farwolaeth Mrs Mary Vaughan Jones, Waunfawr, tra ar ei gwyliau yn Sbaen. Bu Mrs Jones yn athrawes Bywydeg am flynyddoedd lawer yn Ysgol Brynrefail ac roedd ganddi'r ddawn arbennig o ddiddori cyn gymaint ar bawb gyda'i sgysiaid a'i lluniau am ei gwyliau ar hyd a lled y byd. Bydd colled fawr ar ei hôl, gan deulu a ffrindiau lawer.

CYFARFOD BLYNYDDOL Y SEFYDLIAD COFFA LLANRUG

Yn Neuadd Y Sefydliad
Nos Lun, 13eg o fis Mai
am 7.00 o'r gloch

CROESO CYNNES I BAWB

Dewch i gefnogi'r datblygiad
llwyddiannus hwn yng nghalon y pentref

Rhedeg dros yr Ysgol Feithrin



Mae Derwyn Roberts o Geunant wedi rhedeg Marathon Llundain i godi arian at Ysgol Feithrin Llanrug. Fe gwblhaodd y ras mewn pedair awr a wyth munud, a mawr yw ein diolch a'n gwerthfawrogaidd iddo am ein gefnogi fel hyn. Bu Derwyn yn ymarfer ers misoedd ar gyfer y ras. Os buoch yn casglu noddwyr gofynir i chi ddod a'r arian i mewn cyn gynted a phosib. Os na fuoch yn llwyddiannus yn casglu noddwyr gwahoddir chi i wneud gyfraniad arianol at yr Ysgol Feithrin.

**Cefnogwch
ein
Hysbysebwy**



**ORIEL
CWM
Cwm y Glo**

Ffôn/Ffacs: (01286) 870882

Gwasanaeth Fframio
Lluniau o bob math
ar gael ar y safle
Prisiau Rhesymol
Arddangosfa o luniau
gwreiddiol gan
Artistiaid Lleol
Richard S. Humphreys



YN YR ARDD!

WIL G. ROBERTS
Bod Gwilym, Cwm-y-glo

Ffôn: (01286) 870674

GWASANAETH PENIGAMP AM BRIS RHESYMOL

ANTUR WAUNFAWR

Dydd Llun Gŵyl y Banc, Mai 6ed, 11 Y Bore

Gŵyl Fai



Dathlu'r Amgylchedd,
Byd Natur a Chadwraeth

Caffi, Gemau,
Barbiciw, Stondinau,
Crefftiau Lleol, Therapi Amgen,
Band Pres Llanrug,
Teithiau Ceffyl a Throl,
Gweithgareddau Rygarug,
Peintio wynebau a mwy.

ANTUR
WAUNFAWR

Ffôn: (01286) 650 721
www.anturwaunfawr.org

TWTIO 'UNA'

Adnewyddu'r injan stêm

Mae UNA* - Injan Stêm yr Amgueddfa - yn mwynhau cyfnod o orffwys er mwyn cael gwasanaeth trylwyr.


'Mae'n rhaid gwneud gwaith cynnal a chadw rheolaidd ar bob injan stêm, ac roedd UNA i fod i gael gwasanaeth mawr ddechrau'r flwyddyn,' meddai Dr Dafydd Roberts, Ceidwad yr Amgueddfa. 'Mae UNA wedi bod yn atyniad mawr ers iddi ddod i'r Amgueddfa ym 1977, a gobeithiwn y bydd yn denu llawer mwy o ymwelwyr ar ôl i'r gwaith gael ei gwblhau.'

Cafodd ei hadeiladu gan Hunslet, cwmni o Leeds ym 1905, a threuliodd ei hoes waith yn Chwarel Pen-yr-Orsedd yn Nyffryn Nantlle, yn helpu i symud tunelli o lechi o'r Chwarel i'r porthladdoedd ar


gyfer eu hallforio. Fe'i prynwyd yn ddiweddarach gan un a ymddiddorai mewn peiriannau stêm, ac yna, ym 1977, prynwyd hi gan Amgueddfeydd ac Oriolau Cenedlaethol Cymru ar gyfer Amgueddfa Lechi Cymru.

Anfonwyd y boeler i ffwrdd i gael tiwb newydd, ac yn y cyfamser bu staff yr Amgueddfa yn glanhau siasi'r injan stêm ac yn gwneud mân waith atgyweirio. Pan ddychwelwyd y boeler, aed ati i'w baentio â phaent alwminiwm gwrth-wres cyn ei ail-lagio a'i ailosod ar y siasi.

Mae staff yr Amgueddfa yn bwrw ati i orffen y gwaith fel y gall UNA godi stêm unwaith eto ac ailafael yn ei dyletswyddau yn yr Amgueddfa.



'UNA'



Dylan Parry a Evan Thomas yn rhoi 'UNA' at ei gilydd.

GLANHAWYR CARPEDI a POLSTRI

BRYNGWYN

Glanhau i fusnesau a chartrefi

Keith Rees Hughes
1 Cae Newydd, Llanrug

(01286) 674416 neu (07880) 847161

Newyddion Waunfawr

(Parhad o dudalen 5)

Dwyros, Waunfawr ddiolch i'r teulu a ffrindiau cywir a alwodd i'w gweld hefo arian at Ward Gwyrfa'i Ysbyty Gwynedd, hefyd y blodau a dderbyniodd. Diolch yn fawr iawn.

DYMUNO'N DDA.

Daeth yn dymor arholiadau unwaith eto a dymunwn yn dda i bawb fydd yn sefyll arholiadau yn ystod yr wythnos nesaf.

CYDYMDEIMLO.

Anfonwn ein cydymdeimlad dwysaf at Ann a theulu Treforfan yn eu profedigaeth o golli mam Ann.

Anfonwn ein cydymdeimlad hefyd at Rhys a theulu Teganedd yn eu profedigaeth o golli tad Rhys.

Daeth colled fawr i gymdeithasau pentref y Waun a thu hwnt ym marwolaeth sydyn Mrs Mary Vaughan Jones. Estynwn ein cydymdeimlad dwysaf â'i theulu yn ein profedigaeth.

Yn ddiweddar bu farw brawd i Sue, Ty'n 'Rardd. Cydymdeimlwn a hi yn ei cholled.

MERCHED Y WAWR.

Y fferylllydd, y Dr Berwyn Owen, Caernarfon, oedd y gŵr gwadd yng nghyfarfod nos lau, Mawrth 21ain a thestun ei sgwrs hwyliog ac addysgiadol oedd 'Berwyn a'i Bils'. Dyna oedd testun cyfres o raglenni radio hynod ddifys y bu Berwyn yn cymryd rhan ynddi ar Radio Cymru y llynedd.

Wedi gair o groeso gan Irene, y llywydd, cawsom ein dysgu am rinweddau a diffyg rhinweddau gwahanol dabledi a'u cynhwysion, gan ganolbwyntio ar rai fyddai'n llesol ar gyfer merched, yn arbennig. Fe ddylsem i gyd, fel aelodau, gael ail-wynt rwan, o ddilyn ei gynghorion i gyd!

Diolchwyd yn gynnes iawn i Berwyn gan Heulwen a gwnaed y baned gan Rhian, Catherine a Ffilyr.

'Coluro' gydag Eirian Roberts (Clinique, Debenham's) a geir yn y cyfarfod nesaf.

SEFYDLIAD Y MERCHED.

I ddatlu Gŵyl Dewi ym mis Mawrth estynnodd Mrs Catherine A. Jones y Llywydd, groeso i Mrs Mary Vaughan Jones. Cafwyd pnawn diddorol iawn yn ei chwmmi yn rhoi hanes ei thaith i'r India, ynghyd â sleidiau. Mwynhaodd yr aelodau, a Mrs Jones de, a llawer o ddanteithion ar ôl y sgwrs.

Ar Ebrill 4ydd yn Ffestri, Croesywaen, croesawodd y Llywydd, Mrs Catherine A. Jones, Mr Sam Roberts o'r Parc Cenedlaethol, cafwyd sgwrs arbennig iawn ynghyd â sleidiau, gan Mr Roberts, yn rhoi ei hanes yn dringo ym Mhegwn y Gogledd, California, a'r Andes. Diolchwyd iddo gan Mrs Pat Parry. Ar Ebrill 8fed cyfarfu'r aelodau ac aelodau sefydliad Beddgelert yn Antur, am goffi, i drefnu ar gyfer y stondin i Ffair yr Haf y Ffederasiwn sydd i'w chynnal yn Seiont Nurseries ym mis Gorffennaf, maent wedi trefnu i gyfarfod eto yn Antur ar Fehefin 17 am 11 o'r gloch. Stodin o bethau gwaith llaw fydd hon, ac mae'r holl aelodau am fod yn brysur iawn yn gweithio tuag ati. CLWB BOWLIO.

'Roedd tîm o'r Clwb Bowllo wedi ennill yng Nghynghrair Gwynedd y flwyddyn diwethaf. Yn dilyn eu llwyddiant bu raid iddynt drafailio i lawr i Llandrindod Wells ddydd Sadwrn, Ebrill 13 i gystadlu yn erbyn 5 tîm o siroedd eraill Cymru. Yn anffodus nid oeddynt yn llwyddiannus y tro yma, ond 'roedd pawb wedi mwynhau'r profiad yn fawr.

CLWB 300 Y GANOLFAN AM MIS MAWRTH.

£40 Mr Gareth Jones, Glyn Ceris.

£25 Mr Neil Adcock, Glanaber.

£10 Mrs Catrin Lowri, 3 Croes Y Waun.

YSGOL FEITHRIN.

Ar Fawrth y 1af eleni dathlodd yr Ysgol Feithrin ei phenblwydd yn 30 oed, a chafwyd parti mawr, gyda'r plant yn mwynhau castell neidio a chwarae yn y pwll peli a mwynhau cacen wedi ei gwneud gan Anti Karen.

YSGOL FEITHRIN



Plant yr ysgol feithrin yn 1976 gyda Mrs Jenny Jones a Mrs Eluned Roberts.



Plant yr ysgol feithrin yn 2002.

Cychwynnodd yr Ysgol Feithrin ar Fawrth y 1af 1972 yn festri capel Croes-y-Waun gyda Marion Iwan yn arwain, Mrs Mary Vaughan Jones yn gadeirydd, Mrs Rhian Ellis yn ysgrifennydd a Mrs Laura Williams yn drysorydd.

Yn ystod bore y dathlu braf oedd gweld rhai o'r hen wynebaw wedi troi i mewn atom am baned

ac i weld yr arddangosfa o hen luniau.

Erbyn hyn mae'r Ysgol Feithrin yn mynd o nerth i nerth gyda 18 o blant yn mynychu 3 bore yr wythnos a Chylch Ti a Fi un bore.

Dymuna'r Ysgol Feithrin ddiolch i bawb ddaeth i'r dathlu arbennig yma, ac i'r rhai a gyfrannodd i'r arddangosfa.

CEIROPODYDD

Mrs S. Groom MSSCh, MBChA

Yn ymweld â'ch Cartref i drin traed

Triniaeth ar gyfer:

Traed Poenus; Croen Caled; Verrucae; Cyn a Chroen Caled; Ewinedd yn tyfu i'r byw; Torri Ewinedd; Gofal a Thylinio Traed.

Ffôn: (01248) 605450 neu

07747 696267 (symudol)



ARVONIA

LLANRUG Ffôn: 01286 675175

GWYLIAU CARTREF A THRAMOR

Cwmni teuluol gydag 20 mlynedd o brofiad o redeg Pecynnau Gwyliu oll-gynhwysol

Bistro

LLANBERIS

Ffôn 871278

www.ybistro.co.uk

Perchnogion: Danny a Nerys Roberts



Harddwch eich cartref gyda

FFENESTRI CELTIC WINDOWS



FFENESTRI • DRYSAU • CONSERFATERIS
CYFLENWYR AWDURDODAU LLEOL

Busnes teuluol gyda blynyddoedd o brofiad
Ffoniwch - 'dio'n costio dim i gael pris

HEN YSGOL GLANMOELYN
LLANRUG LL55 2RG



(01286) 678618 (dydd)
(01248) 670081 (nos)



BRYNREFAIL

Mrs Lowri Prys Roberts-Williams, Godre'r Coed. Ffôn: 870580

PROFEDIGAETHAU. Tristwch i ni oll fel pentrefwyr oedd deall am farwolaeth ddisymwth y diweddar Tegid Jones, gynt o'r Llys a 12 Trem Eilian, yn 60 mlwydd oed ar Ebrill 3ydd. Er iddo gartrefu ers blynyddoedd yn Llanharan, Rhondda Cynon-Taf, nid oedd wedi anghofio ei wreiddiau yn yr ardal, a'i gysylltiadau a'i deulu yn arbennig a'i ffrindiau lu yn y fro. Bu'n llwyddiannus yn ei alwedigaeth fel Rheolwr Peiranyddol a Chyfarwyddwr Goleuo ym myd teledu am gyfnod maith a'i gyfraniad yn y meysydd hynny i'r darllediadau o'r Eisteddfod Genedlaethol yn glod haeddiannol i'w allu personol a'i berthynas a'i gyd weithwyr. Yn dilyn gwasanaeth angladdol yn Eglwys Llanharan ar Ebrill 10fed, roedd y dyrfa gref a ddaeth ynghyd i Eglwys Sant Helen, Penisarwaun drannoeth i dalu'r gymwynas olaf yn dystiolaeth glodwiw i gymeriad a ennynodd barch a chyfeillgarwch yr oll o'i gydnabod. Cydymdeimlwn yn ddwys a'i frodyr Dewi ac Emyr a'r teulu oll yn eu profedigaeth ghworw.

Ychydig ddyddiau yn ddiweddarach ar Ebrill 7fed, brawychwyd yr ardal unwaith yn rhagor pan ddeallwyd am farwolaeth Ifan Aneuryn Foulkes, Bryn Derw drwy ddamwain angeuol gyda'i feic modur ac yntau ond 24ain oed. Roedd yn gymeriad a edmygid gan bawb, yn aelod o deulu clos ac yn boblogaidd ymysg ei ffrindiau. Er fod ei alwedigaeth yn mynd ag ef yn ystod dyddiau'r wythnos i Leicester, gartref oedd y dynfa bob penwythnos. Bu'r angladd cyhoeddus yn Eglwys Sant Padarn, Llanberis ar Ebrill 12fed ac yn dilyn ym mynwent Nant Peris. Mae ein cydymdeimlad yn fawr â'r teulu yn eu colled.

I'R YSBYTY. Yn ystod yr wythnosau diwethaf mae Mrs Gwyneth Evans, Ty'n Buarth wedi ei galw i Ysbyty Gwynedd ar ddau achlysur. Hyderwn y bydd yn cael adferiad iechyd a hynny yn fuan iawn.

PWYLLGOR CYMUNEDOL. Gyfarfu'r Pwyllgor yn y Ffestri nos Fawrth, Mawrth 23ain. Derbyniwyd ymddiheuriadau gan

Ifan Jones o Mantell Gwynedd, Liz Mead, Ted Silvester, Dafydd Williams, John Meirion Morris a'r Cynghorydd Keith Brymer Jones. Yn absenoldeb yr olaf, llywyddwyd gan Gwyn Hefin Jones. Darllenwyd a chadarnhau cofnodion pwyllgor Mawrth 3ydd. Cynigwyd fod y grwp o hyn ymlaen yn cael ei adnabod yn ffurfiol fel Pwyllgor Llywio Canolfan Brynrefail ac y bydd angen maes o law ethol Trysorydd at y swyddogion a etholwyd eisoes. Cyflwynwyd ail ddrafft o'r Holiadur sydd i'w ddsbarthu yn yr ardal gan Geraint George. Wedi man newidiadau mabwysiadwyd y drafft hwn fel y ddogfen derfynol. Trafodwyd ffiniau daearyddol y pentref fel y bo'r holiadur yn cyrraedd yr oll o'r cartrefi o fewn y gymuned. Dosberthir copiau yn ychwanegol i aelodau o'r Eglwys Bresbyteraidd a chymdeithasau sydd yn cyfarfod ar y safle bresennol ac yn byw tu allan i'r ffiniau hynny. Erbyn y byddwch yn darllen hyn o eiriau, dylai'r Holiadur fod wedi cyrraedd eich cartrefi trwy law un o aelodau'r Pwyllgor Llywio a fydd hefyd yn barod i'ch cynorthwyo, os bydd angen, i gwblhau'r ddogfen a'i chasglu cyn Mai 5ed.

YR EGLWYS BRESBYTERAIDD. Y GYMDEITHAS.

Daeth cynulliad da ynghyd i'r Ffestri i gyfarfod cyntaf y Gymdeithas am 2002 nos Fawrth, Ebrill 9fed. Ar ddechrau'r cyfarfod rhoddwyd croeso cynnes i bawb gan y llywydd Mrs Jennie Hughes, Bryn Parc. Talodd ddyled i'r cydysgrifenyddion - Mrs Eleanor Jones a Mrs Dwynwen Williams am eu gwaith yn paratoi rhaglen mor ddiddorol ar gyfer y tymor. Roedd y myfyrdod yn dilyn dan ofal Mr Emyr Williams. Cadeirydd y noson oedd Mrs Verna Jones a hi gyflwynodd y gwr gwadd sef Mr Bryngwyn Griffith, Penisarwaun. Roedd hir ddisgwyl am ei sgwrs gan fod arddangosfa wedi ei gosod ar y cychwyn i'n croesawu i fwynhau detholion o'i gasgliad lluosog o Lestri Brithyn Abertawe. Cafwyd noson ddiddorol yn ei gwmni yn olrhain hanes a thrafod y gwahanol esiamplau, patrymau a'r lliwiau sy'n nodweddiadol o'r

DEINIOLEN

W. O. Williams, 6 Rhydfadog. Ffôn: (01286) 871259

DIOLCH. Dymuna Eleanor, Gracie, Percy a'u teuluoedd ddiolch i bawb am bob arwydd o gydymdeimlad a charedigrwydd a ddangoswyd tuag atynt yn eu profedigaeth o golli mam, nain, hen nain, hen hen nain a chwaer. Diolch i feddygon Deiniolelen a staff ward Aran Ysbyty Gwynedd. I'r Deon Gwlad Parch Philip Hughes a'r Parch Tegid Roberts am ei gwasanaeth, Gwen Griffith yr organyddes a hefyd i'r trefnydd angladdau Dylan Griffith.

EGLWYS CRIST, LLANDINORWIG.

Yng nghyfarfod o Gymdeithas Cyfeillion Eglwys Crist, a gynhaliwyd nos Fercher, Ebrill y 3ydd. Y gŵr gwadd oedd y Parchedig Tegid Roberts, Is-Ganon yn yr Eglwys Gadeiriol ym Mangor, ac y sydd hefyd yn Swyddog Plant ac Ysgolion yr

Esgobaeth. Eglurodd beth oedd ei ddyletswyddau, fel paratoi deunydd ar gyfer Ysgolion Sul, fel ymwelydd a chyfrifoldebau am y deunaw o Ysgolion yn yr Esgobaeth, sydd yn ymestyn o Gaergybi i lawr i Lanfachraeth, ger Dolgellau. 'Roedd yn noson ddifyr ac yn llawn gwybodaeth am yr hyn sydd yn cael ei gyflawni gogyfer addysg ein plant.

Bydd y cyfarfod nesaf, nos Fercher, Mai y 15 am saith o'r gloch. Y wraig wadd fydd Mrs Diana Davies, Llanberis, cyn-Bostfeistres y pentref. Bydd croeso cynnes i bawb.

Bu i gyfarfodydd y Garawys fod yn llwyddiant mawr eleni. Daeth yr Esgob Saunders i Eglwys Crist, i gwblhau y cyfarfodydd ar 'Seintiau' gan weinyddu'r Cymun Bendigaidd.

(Parhad ar dudalen 22)

cyfryw lestri. Diolchwyd iddo gan Mrs Jennie Roberts. Paratowyd y baned gan Mrs Megan Jones a Mrs Eleanor Jones. Bydd y cyfarfod nesaf nos lau, Mai 9fed yng nghwmni y Parch Marcus Robinson.

TREFN OEDFAON MAI.

5 Cymanfa Dosbarth Padarn yn Rehoboth, Nant Peris am 2 a 6 o'r gloch.

12 Parch S. O. Hughes, Bae Colwyn am 5.30.

19 Parch Dafydd Hughes, Caernarfon am 5.30.

26 Mr Meirion Evans, Lerpwl am 5.30.

SEFYDLIAD Y MERCHED Daeth yr aelodau ynghyd i Ysgol Gymuned Cwmyglo nos Lun, Ebrill 15fed dan lywyddiaeth Pat Jones. Noson o hyfforddiant mewn Cymorth Cyntaf a gafwyd dan arweiniad Helen Paylem a

phrofodd yn noson addysgiadol a buddiol. Paratowyd y lluniaueth gan Gwenllian Edwards a Carys Parry. Enillydd gwobr y mis, rhoddedig gan Mai Davies, oedd Carol Houston.

Ddydd Sadwrn, Ebrill 20fed mynychodd y llywydd ynghyd a'r ysgrifennydd Carol Houston a Verna Jones Gyfarfod Gwanwyn Sefydliad y Merched ym Mhwlheli. Anerchwyd yn y cyfarfod gan Alun Ffred Jones.

Ym mis Gorffennaf mae Ffederasiwn Gwynedd - Arfon o Sefydliad y Merched yn trefnu Ffair Haf ym Meithrinfa Blanhigion Seiont a bydd y gangen leol yn trefnu stondin ar y diwrnod.

Bydd y cyfarfod nesaf nos Lun, Mai 20fed, pryd y trafodir yr argymhellion ar gyfer y Cyfarfod Blynyddol Cenedlaethol a gynhelir eleni yn Brighton.



CARPEDI GERAIN T OWEN

GWERTHWYR CARPEDI, TEILS CARPED A FEINYL
CANNOEDD O DDEWIS O BATRYMAU A RHAI MEWN STOC

FFONIWC H UNRH YW AMSE R:

WAUNFAWR (01286) 650552

Royal Victoria Hotel

LLANBERIS

Mae'r gwesty yn darparu ar gyfer

PRIODASAU • PARTÏON • DATHLIADAU ac
ACHLYSURON ARBENNIG

CYFLEUSTERAU CYNHADLEDDAU a
PHWYLLGORAU

BWYDLEN BAR a CHINIO DYDD SUL

Ffôn: (01286) 870253

+

J.M.
JONES
A'I FEIBION
GWAITH
CERRIG
BEDDAU

Y Sgwâr Llanrug

Crefftwy'r gwaith
llaw traddodiadol
Cerrig o bob math
ar gael -

Ffôn: (01286)
672898 (dydd)
676285 (nos)

DINORWIG

Miss Marian Jones, Minallt, 7 Bro Elidir, Dinorwig. Ffôn: 870292

CYDYMDEIMLO. Yr wyf yn sicr ein bod fel ardal yn cydymdeimlo hefo Mr Roland Williams. 6 Bro Elidir yn ei brofedigaeth o golli ei nain, Mrs Mary Price, Porth Gogledd Deiniolen. Hefyd Mr a Mrs Andrew Griffith, Tan y Bwlch, Andrew wedi colli ei chwaer, Mrs Sas Williams, oedd wedi cartrefu yn y cartref 'Foelas', Llanrug ers rhai blynedd bellach. Derbyniwch ein cydymdeimlad llwyr a chwi yn eich profedigaethau.

CLWB ORWIG.

Mwynhaodd aelodau y Clwb uchod brynhawn difyr yng Ngwesty Meifod, Bontnewydd ar 14eg o Fawrth. Gwahoddwyd nifer o henoed y cylch yno gan Age Concern, Gwynedd a Môn ac ymddiredolaeth William Mathias i gyngerdd oedd yn cynnwys datganiad ar y delyn ar ffid. Darparwyd lluniaeth ar ei cyfer. Mr Robin Jones Age Concern oedd a gofal y gweithgareddau. Talwyd diolchiadau ar ran y glwb gan Mr Ray Bower yr ysgrifennydd.

SUL Y BLODAU.

A hithau yn ben wythnos braf o Wanwyn, bu llawer yn mynychu mynwent Macpela Deiniolen, a'r fynwent yn edrych ar eu gorau. Braf oedd cael edrych ar y blodau hardd oedd ar y beddau, ond yn fwy na hynny, braf oedd sylwi pa mor dwt a thalus oedd y fynwent. Credaf mai dim ond teg yw talu gair o ddiolch i Gyngor Gwynedd am eu gwaith da yn cadw'r fynwent mor ddaclus. Diolch yn fawr iawn i'r Swyddogion o'r Cyngor sydd yn gyfrifol am y gwaith da yma - Daliwch ati.

CLWB ORWIG. Yng nghyfarfod y Pasg o'r clwb, bu'r aelodau yn brysur yn creu hetiau tymhorol. Yr oedd yn amlwg fod cryn feddwl a dyfais wedi bod ar waith i greu'r creadigaethau ysblennydd. Barn y beirniad sef K. Emery o Ganolfan Blue Peris oedd mai Megan Morris, Katie Ll. Hughes a Sue Michaels oedd yr enillwyr.

Dymunwyd pen blwydd hapus i Rex Faulkner ac i Terry Taylor a oedd wedi anfon ei gyfarchion i'r aelodau o Ganada. Rhoddodd y Llywydd John Cautrell ragor o sylw i'r bwriad o newid y dull o

fancio yn yr ardal.

Mwynhawyd y te Pasg arbennig a ddarparwyd gan Betty Roberts, Katie Hughes a Betty Lloyd Roberts. Cafwyd caneuon tymhorol gan Betty Ll. Roberts, Alice Griffith a Nellie Wyn Jones.

Yn yr ail gyfarfod o'r mis gwirfoddolodd Dennis a Joan Glass a Terry Taylor i ymuno a'r Llywydd i ffurfio tîm o'r Clwb i gymryd rhan mewn Gwis a drefnir gan Age Concern. Bu trafod ar y ffordd ymlaen i greu llun o Siopau yr ardal y cafwyd eu hanes beth amser yn ôl gan Megan Morris a Nellie W. Jones.

Cytunwyd i gymryd rhan mewn taith filltir nodedig i godi arian at elusen Cancr Macmillan. Cytunwyd hefyd i wahodd cynrychiolydd o'r Partneriaid, sy'n bwriadu codi Canolfan chwaraeon ger Llanberis, i roi sgwrs i'r Clwb.

Cafwyd adroddiad o'r sefyllfa ariannol gan y trysorydd Betty Bower; dilynwyd hi gan Ray Bower a rhoddodd sgwrs ddifyr am un prynhawn prysur yn ei hanes, tra'n ohebydd ifanc ar bapur newydd wrth iddo ddilyn trywydd stori am haint, am awyren yn cwympo, ac am fws ysgol mewn gwrthdarwiad.

Diolchwyd i Morfudd Jones am dynnu lluniau hetiau'r Pasg ac i Betty Jones ac Elizabeth Jones am baratoi'r te. Enillwyd y raffl yn y ddau gyfarfod gan Betty A. Jones, Margaret Faulkner, Anne LO, Joan Glass, Betty Bower a Nellie Wyn Jones.

ADREF O'R YSBYTY.

Da yw gweld Mr a Mrs Rex Faulkner adref yn ôl o'r Ysbyty ac yn gwella, brysiwch wella eich dau. Hefyd yr ydym yn deall fod Mrs Hannah Roberts wedi cael llawdriniaeth i'w llygaid, a da deall ei bod hithau yn gwella.

Y GANOLFAN.

Ers y cyfarfod olaf o bwyllgor y Ganolfan mae tipyn o ddatblygiadau wedi cymerid lle. Erbyn hyn yr ydym ar ddeall fod swm sylweddol iawn, o arian i gael ei wario arni. Bydd yr arian yn ddigonol ar gyfer gosod system wresogi newydd, system newydd ar gyfer y dŵr poeth, ail weirio ynghyd a chegin a tholed newydd. Bydd yma fynedfa ar gyfer yr



Aelodau'r Clwb Orwig yn swancio yn eu hetiau Pasg.

anabl, atgyweirio ffenestri ynghyd â gwaith plastro.

Erbyn hyn y mae rhan o'r gwaith wedi dechrau ac ni fydd y Ganolfan ar gael i neb am rai misoedd am y flwyddyn yma.

Mae pwyllgor o'r uchod Nos Iau 25ain ac o bosib y gallaf ddatgelu mwy ichwi yn y rhifyn nesaf o'r Eco.

CYFARFOD PREGETHU.

Ar Sul y Pasg cynhaliwyd Cyfarfod Pregethu, Gefn y Waen. Cafwyd dwy oedfa arbennig ac amserol iawn gan y Parch Harri Parri a phobol dda wedi dod ynghyd i'r ddwy oedfa. Yr oedd fel arfer yn fyr, symyl a chynnil, ond yr oedd y neges yn fawr ac amserol ac yn dweud llawer ac yn rhoi llawer inni

feddwl amdano, a braf yw gallu dweud, mai da pedd cael bod yno. Diolch yn fawr ichwi Mr Parri.

CYFARFOD PREGETHU SARDIS.

Cynhelir Cyddau Pregethu'r Sulgwyn yn Sardis ar Fai 19eg. Y pregethwr gwadd fydd y Parch Densil Morgan, Warden Coleg y Bedyddwyr Bangor. Bydd yr oedfaon yn dechrau am ddau y prynhawn a 5.30 yr hwyr, croeso cynnes i bawb.

Cefnogwch ein Hysbysebwyrr

Pa un o'r rhain sydd
bwysicaf?

YSWIRIO EICH TŶ
(i arbed colled i chi);

YSWIRIO EICH CAR
(i arbed colled i chi); neu
YSWIRIO EICH BYWYD
(i arbed colled i'ch teulu)

Cysylltwch â'r isod i weld mor rhad
yw cost yswiriant gyda **CDH**
Andre (Bethel/Llanberis)
Bryn (Môn)

Euryn (Caernarfon a'r cylch)
John Eifion (Penisarwaun)

CDH

Ymgynghorwyr Ariannol
Annibynnol Lleol (sefydlwyd 1974)

Ffôn: (01248) 355055

Dewch i'r ganolfan newydd
am fargeinion dodrefn



yng Nghapel Mawr
LLANRUG
Ffôn: 674141

Ar agor: Llun - Sad 10-6;
Sul 10-4

Rygiau, Cabinets, Byrddau,
Cypyrddau dal llyfrau,
Desgiau, Cadeiriau, Soffas,
Gwelyau ayyb

DAWES

TREK

ENERGY CYCLES

60 Stryd Fawr
Llanberis

Beics a Barcudau

Partiau a Thrwsio Beics

Beics Ffordd a Mynydd,
BMX, Triathlon
Barcudau Hwyl, Chwaraeon
a Delta Powerkites.

Dewis Da

07980 742584 • 01286 871892 sales@energycycles.com

Airborne



Oriau Agor

Gaeaf: 5 diwrnod yr wythnos:
lau, Gwener, Sadwrn, Sul, Llun
Haf: 7 diwrnod yr wythnos ar
agor tan 6 pm

STEPHEN JONES

† Trefnwr Angladdau
Llanberis ac Ardal yr Eco

(01286) 870 870

(01286) 872 491

(07770) 265 976

Cwmni Annibynnol Lleol
Profiadol

Cyngerdd Gŵyl Ddewi Dinorwig



Hannah a Marian yn gyflwyno sic o £100 i Elfed M. Morris at gostau teithio plant i eisteddfod yr Urdd yng Nghaerdydd.

'Oes y Byd i'r iaith Gymraeg' Cafwyd cyngerdd Gŵyl Dewi yn y Ganolfan Nos Iau 21ain o Fawrth o dan arweiniad Mr John Jones, Ceris Deiniolen, a braf iawn oedd cael gweld y Ganolfan yn llawn. Doniau lleol oedd yn cymeryd rhan, dechreuwyd y cyfarfod drwy gyd ganu 'Cofia'n Gwlad Benllywydd Tirion,' yna cafwyd cân gan genod Tŷ'r Ysgol. Yna cafwyd dawns Gymreig gan Anest Bryn. Mae Anest wedi mynd drwydd i Eisteddfod yr Urdd i Gaerdydd. Yna parti persain o dan arweiniad Elfed M. Morris, y parti yma eto wedi ennill ei ffordd i Gaerdydd. Cafwyd unawd ar y cornet gan Arwel Williams, unawd gan Eleri Mai, unawd ar y Basŵn gan un o blant Stel Hafodty, mae'r plant yma yn dalentog iawn, ac yna unawd ar y piano gan y mab sydd wedi bod yn wael am rai misoedd ond da yw gweld ei fod yn gwella. Stel yn ddysgwraig y flwyddyn yn 1989. Yr unawdydd gwadd oedd Mr Raymond Jones o

Tŷ Croes, Ynys Môn. Yn enedigol o Lanberis, ac wedi dod yn drydydd yn yr Eisteddfod Genedlaethol y llynedd. Mae ganddo lais arbennig.

Cafwyd rhan gan y parti ieuengaf o dan arweiniad Elfed eto. Y Parti yma eto wedi ennill eu lle drwydd i Gaerdydd. Hefyd cafwyd unawdau gan Elfed, Kimberley Ann Owen; ac Evan a'r genod, lle ddaeth y cyfarfod i ben hefo Raymond yn arwain ein hamthen Genedlaethol "Hen wlad fy nhadau".

Ar y piano oedd Annette Bryn Parri ac ar yr organ oedd Olwen Bryn Hughes, y ddwy bob amser yn barod i helpu. Talwyd y diolchiadau gan Marian Jones. Dywedodd (ar ôl talu'r treiliau i gyd) y byddai'r gweddill o'r elw yn mynd tuag at gludo'r plant i Eisteddfod yr Urdd yn Gaerdydd a dymunodd yn dda iddynt i gyd.

Yn ystod yr wythnos ddilynol bu i Hannah a Marian gyflwyno sic o £100 i Elfed, gweler y llun.

Cyngor Cymuned Llanberis

Cynhaliwyd cyfarfod o Gyngor Cymuned Llanberis nos Iau, 18fed o Ebrill yn 'Angorfa' gyda'r Cyngorydd Helen Sharp yn y gadair.

Croesawyd Mrs Janetta Jones o Anheddau Cyf. a roddodd amlinelliad o fwriadau'r cwmni elusennol ar gyfer addasu adeiladau Bryn Du yn Llanberis er mwyn cynnig gwasanaethau preswyl dros-dro gogyfer ag unigolion â gwahanol anabledau, ynghyd â chynnig cyrsiau i ofalwyr.

Ni dderbyniwyd unrhyw dendr y gwaith o beintio Amgueddfa T. Rowland Hughes, ond derbyniwyd yn ddiolchgar, gynnig Mr Iwan Morris i wneud y gwaith yn wirfoddol.

Derbyniwyd dwy o dendrau am y gwaith o ffensio rhan o gae chwarae Frondeg, a gosodwyd y gwaith i gwmni o Gaernarfon. Penderfynwyd hefyd gael cyngor arbenigol er mwyn gwaredu'r safle o'r chwyn Japanese Knotweed.

Ystyriwyd un cais cynllunio am addasiadau a newidiadau i Bryn Eithin, Pentre Castell; ac nid oedd gwrthwynebiad i'r datblygiad.

Derbyniwyd adroddiad ar gyflwr y fynwent, a gwneir apêl ar i'r rhai sy'n ei defnyddio i ofalu fod sbwriel yn cael ei osod yn y bin. Ar amgylchiadau arbennig, sylweddolir fod y bin yn medru bod yn orlawn, ac ar achosion o'r fath gofynnir yn garedig am i'r sbwriel gael ei gario o'r fynwent. Gyda chydweithrediad pawb, mae'n bosibl cadw'r fynwent mewn cyflwr taelus.

Derbyniwyd tair o dendrau am dorri gwair yn y fynwent, a gosodwyd y contract i gwmni o Gaernarfon.

Penderfynwyd cysylltu â Chyngor Gwynedd ynglyn â chyflwr y llwybr cyhoeddus o Bentre Castell heibio i gefn gwesty'r Fictoria.

Derbyniwyd gwybodaeth uniaith Saesneg gan y Comisiwn Archwilio yn nodi

trefniadaeth newydd yr archwiliad blyneddol, a'r ffaith i gwmni o Gaer gael eu hapwyntio i wneud y gwaith. Adroddodd y Clerc iddo anfon i'r Comisiwn Archwilio yn nodi'r angen am ohebiaeth yn Gymraeg, a'r gallu i archwilio cyfrifon yn y Gymraeg. Penderfynwyd penodi person lleol yn archwiliwr mewnol y Cyngor, ac i hysbysu'r Comisiwn Archwilio o hynny.

Derbyniwyd gwybodaeth gan Gyngor Gwynedd ynglyn â'r ffaith fod newidiadau i'r goleuadau cyhoeddus yn Nantperis a fyddai'n atal llygredd golau, wedi ei osod ar eu rhaglen waith.

Derbyniwyd gyda phryder y newyddion fod y toiledau ger y lanfa yn Llanberis wedi eu fandaleiddio i'r fath raddau nes gorfodi'r Cyngor i'w cau am amser amhenodol. Cytunwyd fod sefyllfa o'r fath yn gwbl anffoddhaol, ac y dylid cydweithio gyda'r awdurdod lleol a'r heddlu i geisio atal mwy o fandaliaeth, tra ar yr un pryd yn ceisio cael y toiledau ar agor gynted â phosibl er budd y cyhoedd.

Penderfynwyd cysylltu â Chyngor Gwynedd i holi ynglyn â'r broses a ddilynir ynglyn â chais cynllunio Glynrhonwy, a'r trefniadau ynglyn ag ymgynghori'n llawn â'r cyhoedd.

Gwneir apêl unwaith yn rhagor ar i fusnesau ar y Stryd Fawr yn Llanberis ofalu nad yw eu harwyddion hysbysebu yn creu rhwystrau i gerddwyr ar y palmant.

Gofynnwyd i'r aelodau baratoi erbyn y cyfarfod nesaf restr o faterion i'w trafod gyda'r Heddlu gyda'r bwriad o wahodd swyddog o'r Heddlu i gyfarfod arbennig yn ddiweddarach ym mis Mai.

Cynhelir y cyfarfod nesaf o'r Cyngor ar nos Iau, 16eg o fis Mai yn 'Angorfa' am 7.00 o'r gloch. Bydd hwn yn gyfarfod blyneddol y Cyngor hefyd pryd y derbynnir y fantolen ariannol ac ethol swyddogion am y flwyddyn i ddod.

BWS BACH AR LOG

Bws 22 sedd ar gael ar gyfer pob math o logi preifat - nosweithiau allan, partiön, tripiâu ac ati.

Gwasanaeth personol a thelerau rhesymol gan

(01248) 361044



D. P. OWENS RHIWLAS

GORSAF BETROL



BERAN

DEINIOLEN

Ffôn: (01286) 871521

Ar agor 7 a.m. - 9 p.m. bob diwrnod

Petrol • Disel • Nwy Calor • Glo
Cylchgronau • Papurau Newydd
Cardiau Penblwydd • Wyau
Nwyddau Groser • Melysion

TICEDI LOTERI AR WERTH YMA!

Gwesty Dolbadarn

LLANBERIS Ffôn: 870277



Am groeso cartrefol Cymreig bob amser Aneuryn Jones a'r staff

Chwaraeon –

(Parhad o'r dudalen gefn)

John Cefn y rheolwr, i Trefor Foulkes a'i bwyllgor gweithgar, i'r noddwyr parod ac wrth gwrs i'r chwaraewyr. Du iawn yw hi ar Eithin Duon, gyda ail dîm Llanrug ar waelod y gynghrair, gyda dwy fuddugoliaeth yn unig drwy'r tymor.

Rhaid diolch er yr adroddiad 'salw' i'r selogion prin hynny yn y clybiau sy'n dal i gadw'r 'blaidd o'r drws' er mwyn gwneud yn siwr fod yr 'hogia yn cael gêm'. Ai tîg gofyn eto, a oes digon o chwaraewyr yn ein bro i gynnal cyn gymaint o dimau mor agos at ci gilydd?

Mor wahanol yw hi yn y campau dan dô, dartiau a pwl. I Lanrug aeth y llawryf yn y byd Pwl gyda thîm 'A' Penbont yn ennill pencampwriaeth prif adran Cynghrair Caernarfon. Tipyn o sioc i dîm Clwb Pêldroed y Cofis! Yn adran 3, bu'n agos iawn rhwng y Snowdon, Waunfawr a'r Halfway, Talsarn. Ail fu'r Beganifs!

Ym myd y dartiau bu Rhyddallt yn fodlon ar orffen yn drydydd yn y prif adran.

Ond y dafarn Leol sy'n bencampwyr y gemau dan do yw Bull, Deiniolen. Yn amlwg, mac eu chwaraewyr dartiau wedi taro y tarw yn aml iawn. Tîm dynion y Bull yw

Newyddion Deiniolen

(Parhad o dudalen 19)

DIOLCH. Dymuna Alwena a theulu'r ddiweddar Jane Jones, 24 Rhydfadog ddiolch i bawb a fu'n ymweld â mam yn ystod ei gwaeledd, neu a anfonodd gyfarchiad, cafodd bleser mawr o'ch gweld i gyd. Diolch yn arbennig i'r gweinyddesau Cymorth Cartref; Tim Ymateb Brys Arfon, a'r cymdogion a fu mor garedig tuag ati; i'r staff a'r meddygon ym mhob un o'r wardiau y bu ynddynt yn Ysbyty Gwynedd; i feddygfa Deiniolen ac i staff Uned Macmillan, Ysbyty Bryn Seiont am eu gofal tyner yn ystod yr wythnos olaf.

Hoffem ddiolch i'r Parch John Pritchard a'r Parch John Gwilym Jones am eu ffyddlondeb; i swyddogion a merched Capel Ebenezer am eu cymorth parod i'r teulu; i John Jones am gyfeilio yn y gwasanaeth ac i E. W. Pritchard, Llanberis am eu trefniadau taclus. Diolch i chwi i gyd hefyd am eich caredigrwydd a'ch cydymdeimlad tuag atom pan fu farw ar 19 Ebrill.

CYMANFA'R ANNIBYNWYR

CYLCH CWM-Y-GLO.

Cynhaliwyd y Gymanfa bnawn

pencampwyr yr ail adran, a dyrchafiad i wynebu a herio y timau llawr gwlad y tymor nesaf. Yna tîm merched y Bull, yn ail agos iawn i dîm y Goron Fach yn y brif adran. Gyda llaw, pencampwyr ail adran cynghrair y merched oedd Wellington, Deiniolen. Bydd cryn edrych ymlaen i'r gemau darbi rhwng y timau merched tymor nesaf. Y Tarw yn erbyn Wellington. Pwy fydd yn gwyncebu ei Waterloo tybed?

Tymor arall drosodd. Ennill, colli, llwyddo, siom – dim ots, mi fydda nhw i gyd yn ôl y tymor nesaf. Fel y dywedodd rhywun, 'y cymeryd rhan sy'n bwysig.'

Cefnogwch
ein
Hysbysebwy

Y Dôm yn Llundain

Sosar y Sais i'r oes hon, - plas gwyn hardd,
plisgyn wy ar bolion.

Ffrwyth awchus, ddawnus, ddynion,
yn 'shabby hut' newydd sbon.

Adeiladwaith diawledig – ein hamser.

Tŵr simsan, crynedig,
a'i orielau cythreulig
i wŷr mawr gael chwarae mig.

Am gwlin mewn prifddinas, - hwn ydyw
gofadail anaddas.

Ei hercyd wnaed fel syrcau,
a'i wneud o yn ddiawch o das.

Miliynau i'r mileniwm – yn awchus
luchiwyd am do cefngrwm.

A chwt diraen sy'n faich trwm
o warthrudd, all droi'n orthrwm.

R. J. PENMORFA

(Bydd englyn arall gan R. J. yn y rhifyn nesaf.)

Sul, 21 Ebrill yng Nghapel Ebenezer, Deiniolen. Diolchir i'r Arweinydd, Annette Bryn Parri am ei dull cartrefol braf hefo'r plant ac i John Jones am gyfeilio. Braf oedd gweld cynifer wedi dod i wrando ar aelodau'r Ysgolion Sul yn cymryd rhan. Diolchir i bawb a gyfrannodd ac a gefnogodd y Gymanfa eto eleni.

Clwb Ieuenctid Llanrug



LLun o aelodau Clwb Ieuenctid Llanrug a fu'n llwyddiannus mewn cystadlaethau badminton ardal Arfon – yn y llun mae Emlyn, Eifion, Sarah a Kylie – llongyfarchiadau iddynt.

Mae'r clwb wedi cau dros yr haf a byddwn yn ail agor ym mis Medi.



**ADRAN ADDYSG,
DIWYLLIANT A
HAMDDEN**

ADAIN DIWYLLIANT

Mae angen Staff wrth Gefn i weithio yn Llyfrgelloedd:

**BANGOR, BETHESDA,
DEINIOLLEN A LLANBERIS**

yn ystod gwyliau neu salwch staff parhaol

Tâl: £5.13 yr awr

**Os oes gennych ddiddordeb
cysylltwch â:**

Shân Wyn Jones

Llyfrgellydd Bro Arfon

Ffordd Gwynedd

Bangor

LL57 1DT

Rhif Ffôn: 01248 353479



**GARETH GRIFFITH
A'I GWMNI**

Cyfreithwyr

6 Pepper Lane, Caernarfon, LL55 1RG

Tel: 67 68 69 Ffacs: 67 77 05

E-bost: ggriffith.ggco@virgin.net

- Prynu a Gwerthu Tŷ • Ewyllysiau a Phroffiant
- Hawliadau Damweiniau • Prydles ac Eiddo
- Cyfreithiad Troseddol a Sifil • Deddf Drwyddedu
- Ysgariad a Gwarchodaeth Plentyn
- Perchennog a Thenant
- Pob Gwaith Cyfreithiol Cyffredinol

G. EVANS


**ARBENIGWYR TRWSIO
CYRFF CEIR**



Uned 4, Stad Ddiwydiannol Brynafon, Llanrug

(01286) 678030

CROESAIR MAI



Gweithiau gan 12 i lawr (4, 7) ydi'r tri ateb sydd heb gliwiau iddynt.

Ar draws:

- 1 (5, 4, 6)
- 9 Byw yn groes i natur (4)
- 10 Crib cefn Enlli? (6)
- 11 Tyfiant allanol ar y corff (4)
- 14 Dyma oedd 27 ar draws i Eryllt (9)
- 15 (1, 3, 3)
- 16 Chwipio (7)
- 18 Tynwch (9)
- 20 Diodydd brag yn cynnwys cwrw a mêl (8)
- 22 Eryrod yn hedfan o fewn pegynau Prydain yn creu gofidiau (8)
- 24 Dal pysgod hefo gwialen (9)
- 25 Aderyn sy'n gwybod o ble mae'r gwynt yn dod! (7)
- 27 Stan a Stan a Stan, ond yn y diwedd, dim ond un person! (7)
- 29 (2, 2, 1, 4)
- 31 Gwisg y meirw (4)
- 32 Yn ymwneud â brodor o wlad Canaan (6)
- 33 Y cyfandir mwyaf (4)
- 34 Cynghreiriau (15)

I Lawr:

- 2 Erfyn cillio (5)
- 3 Meithrinfaedd (7)
- 4 Argaen yn rhan o'r gwrthwynebiad (8)
- 5 Un sy'n cyffroi (9)
- 6 Eirlaw tra fo'r bardd yn dychwelyd (5)
- 7 Yr hyn sy'n weddill ar ôl torri'r goeden (6)
- 8 Enw sy'n awgrymu fod eira ar y tir uchel? (8)
- 13 Teithiwr (11)
- 17 Asgell a naid rhyfedd (5)
- 19 Anifail sy'n hoff o bysgod (5)
- 20 Mae'n cynnwys rhywbeth yn ei big i ti, Ann. Na, dim ond profocio! (8)

- 21 Trawiad llygad mewn eiliad! (9)
- 23 Offer i fesur y gwahaniaeth mewn foltiau mewn cylchedd trydan (8)
- 25 Chi, Carys sy'n berwi! (7)
- 26 Offer i rannu'r mawr oddi wrth y bach (6)
- 28 49 a 10 yn amgylchynu 500 i roi'r gorau iddi (5)
- 30 Y wlad fwyaf yn y byd (5)

Daeth saith ar hugain o atebion i groesair Ebrill i law, ac yn eu plith Ceridwen Williams, Llanrug a Margaret W. Roberts, Caernarfon. Diolch o galon i'r ddwy ohonoch am gynnwys cyfraniad i gronfa Tenovus drwy ymdrech Eurgain yn y Marathon.

Mair Evans, Caernarfon; Hywel a Dilys Griffith, Awstralia; Jean Hughes-Jones a Catherine A. Jones, Rhiw; N. P. Jones, Clynnog; N. Hughes, Cwm-y-glo; Pat Owen, Caerfyrddin; Rosemary Williams, Mynydd Llandegai; Alvona Jones, Prestatyn; Eluned Jones, Trefor; Dilys A. Pritchard-Jones (Radio Cymru!), Abererch; Jenny Williams, Clynnog; Rhiannon Pritchard-Jones, Clynnog; Tegid Roberts, Llanrug; Moreen Lennon, Llanberis; Nan Owen, Llanberis; G. Gill, Bangor; Megan Wyn Jones, Bangor; Olwen Owen, Llanberis; E. E. Jones, Rhoshirwaun; Ellen Pritchard, Garndolbenmaen; Olwen Jones, Bethel; Eirian Roberts, Llanrug; un di-enw, ac enillydd y mis, sef Dafydd Owen, 11 Bryn Moelwyn, Llanrug oedd y gweddill wnaeth ymateb.

RHODDION

£11. Di-enw.

£10. Oddi wrth deulu y diweddar Mrs Jeni M. Williams, Pennant, Nant Peris.

Mari Owen, Llanfairpwll.

Er cof am Mrs Jane Jones, 24 Rhydfadog, Deiniolen.

Mrs Annie Jones, Eilionwy, Llanrug.

Mrs Mona Griffith, Orwig House, Llanrug;

Teulu Dwyros, Waunfawr.

£7. Mr a Mrs O. Jones, Llangefni.

£5. Eleanor Williams, Gracie Tate a Percy Price, Deiniolen.

Mrs Sally Thomas, Min y Rhos,

Llanrug;

Dilys Williams, 7 Llys y Gwynt, Penisarwaun;


Teulu'r ddiweddar Mrs Price, Porth y Gogledd, Deiniolen.

£1. Elizabeth Williams, Llwyndyrus;

E.C. Rowlands, Childer Thornton.

50c. Gwilym Ellis, Llandrindod.

Cefnogwch
ein
Hysbysebwy



Llongyfarchiadau i ti Dafydd, a £5 yn dy boced. Gobeithio y bydd iti ffendio croesair Mai yr un mor 'isi pisi'.

Ar ôl cwblhau'r croesair, gyrrwch eich atebion at Dafydd Evans, Sycharth, Penisarwaun erbyn Mai 20.

I drin a thrwsio
pob math o
beiriannau gwnïo

**MENAI SEWING
MACHINE CENTRE**

21 Stryd Fawr
PORTHAETHWY

Ffôn: (01248) 714043

neu Caernarfon

Ffôn: (01286) 674520

Edau, Nodwyddau
ac ati mewn stoc

PRYD I BAWB

Bwffe blasus o safon
at bob achlysur

CINIO BUSNES

BEDYDD

PEN-BLWYDD

TE ANGLADDAU

CERID MACKINNON
(01286) 673190



GWASANAETH LLEOL AR GYFER

PARTÏON • PRIODASAU • PEN-BLWYDD
BEDYDD • DAWNS • GWYLIAU ...

**RHOSTIO
MOCHYN**

AR GYFER POB ACHLYSUR



* Cig o ffermydd lleol * Partïon rhwng 40 a 400!

* Gyda saws afal a stwffin mewn rholiau

* Efo salad hefyd os dymunwch

DEWCS, MAE O'N FLASUS!

Cysylltwch â

JOHN BRYNAFON, LLANRUG

Y DYD CIG ar 675190 / 673188

CHWARAEON

Tlws yr Eco

Fe ddaeth yr adeg yma o'r flwyddyn i chwi reolwyr timau pêl-droed, pêl-rwyd a phêl-droed oed cynradd yr ardal i ddechrau paratoi. Fe fydd y drefn fcl y llynedd, gyda chystadlaethau pêl-rwyd a phêl-droed i oedrannau Bl. 3/4 a Bl. 5/6. Yr un fydd y lleoliad, sef cae pêl-droed Ysgol Gynradd Llanrug, a'r noson bwysig fydd Nos Iau, Mehefin 20. Unwaith eto, pris y tîm fydd £10, i'w galluogi i brynu tlysau i enillwyr a'r sawl sy'n gorffen yn ail. Unwaith eto, rwyn siwr y cawn noson lwyddianus iawn.

Fe fydd y DAFLEN COFRESTRU yn ymddangos yn rhifyn MEHEFIN o'r Eco.

Fel arfer, buaswn yn gwerthfawrogi cael y ffurflen a'r arian oddi wrth y timau cyn y gystadleuaeth.

Fel y cyfeiriwyd eisioes mae

hon yn noson hynod o lwyddianus, sy'n denu torf dda i wyllo. Yn enw'r Eco y cynhelir y gystadleuaeth, ond yn anffodus nid yw'r Eco - mewn amser anodd - yn elwa dim yn ariannol. Y mae'r holl arian a dderbynir o'r timau yn mynd at brynu tlysau i'r plant.

Gellir israddoli'r tlysau, er mwyn gwneud elw, ond teimlaf y buasai hynny yn cosbi'r plant sy'n rhoddi cyn gymaint o adloniant i ni o flwyddyn i flwyddyn.

Ar awgrym rhai, bwriadaf basio 'pwced' o gwmpas ar y noson, ac os yw'r 'dorf' yn fodlon cyfrannu fel rhyw 'bris mynediad' answyddogol, yna fe gyfrannir unrhyw arian at goffrau yr Eco. Gobeithio y gallwn 'elwa' ar sawl lefel o noson lwyddianus unwaith eto.

Disc - A Dawn!

Ydy, mae Marc Lloyd Williams wedi torri record. Cyrhaeddodd 47 o goliau, pan sgoriodd chwe gôl yn gêm cynghrair Cymru yn erbyn Rhacadr. (Efallai ei fod wedi ymestyn y record, gan fy mod yn ysgrifennu'r llith yma cyn gêm gynghrair olaf Bangor yng Nghaerfyrddin). Yn ddios ef yw 'arwr' ffyddloniaid Ffordd Farrar, ac mae nifer ohonynt yn cnoi eu gwinedd, gan fod ei gytundeb gyda'r gleision yn dod i ben y tymor yma. Mae clybiau'r Barri a TNS yn glybiau amser llawn. A ddenir Marc yno? (Cofier i'r Barri ddenu Eifion Williams, erbyn hyn yn y gemau ail gyfle yn Hartlepool, o Gaernarfon). Ynteu, a fydd Marc yn denu sylw un o glybiau Cynghrair y *Nationwide*? Mae wedi cyhoeddi y buasai'n hoffi ail gyfle yn y gêm 'broffesiynol', ond un a gwell 'awyrgylch' o'i chwmpas. Yn anffodus, bydd arian yn brin iawn yn Adranau 2 a 3 o'r *Nationwide*, yn dilyn cwmp ITV Digidol. Os yw Marc am adael ffordd Farrar, caiff gyfle i roi 'ffarwel' ardderchog i'r dilynwyr. Bu ei goliau yn allweddol i alluogi Bangor i orffen yn ail yn y gynghrair a lle yn Ewrop - sy'n denu arian hollol anghenrheidiol i'r clwb. Ond tlysau mae'r cefnogwyr yn gofio. Lle gwell i Marc serennu nag yn rownd derfynol cwpan Cymru yn erbyn y Barri yn Aberystwyth. Gyda llaw, cyn ddeiliad y record oedd Dave Taylor, tra'n chwarae i glwb Porthmadog, un o gyn glybiau Marc. Tybed os yw cyflwr gwyh y Traeth, a'r gwellhâd rhyfeddol ym maes Ffordd Farrar yn elfen yn y ddawn i sgorio goliau. Yn

sicr mae cryfder 'troed chwith' Marc yn elfen. Bu rhai o'i goliau cofiadwy wedi eu crymanu o onglau cyfyng iawn, mantais y chwaraewr droed chwith.

Y mae rhai yn siwr o ddweud fod y goliau yn deillio am fod safon y gynghrair yn wan. Anghytunaf â hyn. Rwyf wedi mynychu Ffordd Farrar a'r Oval yn gyson y tymor hwn. O wrando ar y selogion - er fod y canlyniadau weithiau'n siomedig - anaml y cant eu siomi â safon y gemau. Yn wir, roedd y ddwy gêm gynghrair rhwng Bangor a Caernarfon yn ddwy gêm gofiadwy iawn. Mae safon y gynghrair yn gwella pob tymor.

Un elfen fydd o blaid ymateb iddi rwy'n siwr yw maint y gynghrair. Mae'n beryg i'n cynghrair genedlaethol ymdebygu i'r Cynghrair Premier yn Lloegr, ble mae rhyw bum clwb yn mynd i reoli oherwydd eu cefndir ariannol. Anodd gweld unrhyw glwb yn y system bresennol yn bygwth rheolaeth Y Barri, Bangor a TNS o'r gynghrair. Arian mewn dau glwb amser llawn, a Bangor yn denu degau o gefnogwyr i gadw eu trwyn fodfeddi uwchben y dŵr. Er y rhamant o dimau gwledig, ni allant yn realistig gyfrannu at ddatblygiad y gynghrair. Mae gormod o glybiau tu fewn i'r un ardal, a'r gefnogaeth ranedig yn dwyn elw i neb. Y mae Ynys Môn yn enghraifft wych. Mae Llangefni, Glantraeth, Bae Cemaes, Llanfairpwll a Chaergybi yn yr un gynghrair - y nesaf i'r gynghrair genedlaethol. Mae hyn dipyn o gamp, ond eto bydd pob un yn

Rygbi



Mewn gêm gyffrous yn rownd gyntaf cwpan Gwynedd, enilliodd tîm dan 13 Ysgol Brynrefail yn Ysgol Dyffryn Nantlle o 24-5. Cafwyd dechrau da wrth i Dion Roberts redeg yn gryf a sgorio dau gais. Roedd Gethin Wakeham yn llwyddianus tra'n trosi. Roedd dull agored y tîm i'w ganmol,

gyda'r pwyslais ar redeg y bêl. Daeth ceisiau i Ifan Thomas a Daniel Thomas. Dyfarnwyd Jaco Mullane yn chwaraewr y gêm, am ei dacio grymus, a alluogodd ei dîm i gynnal y dull agored llwyddianus. Taith i Fotwnog sy'n wynebu'r bechgyn nesaf.

Adroddiad Diwedd Tymor

Digalon mae'n siwr fuasai'r ffordd orau o ddisgrifio sefyllfa'r bêl-droed yn y fro, os yw'r cynghreiriaid yn dweud y gwir. Llanberis, o ran statws yw'r ceffylau blaen o hyd, ond rhaid fydd bodloni ar safle cyfforddus yng nghanol y gynghrair. Cafwyd ambell i berfformiad disglair, ond anodd fu cadw carfan sefydlog. Dros y tymhorau diweddaif colodd Llanberis nifer o chwaraewyr i glybiau eraill, mwy arianog efallai, ac nid yw'r system ail ffurflen wedi helpu. Heb ail dim bellach, anodd meddwl o ble fydd y chwaraewyr yn dod. Mae'n beryg i ni ddychwelyd i gyfnod y 60au a'r 70au, ble'r oedd chwaraewyr yn crwydro o glwb i glwb. Cryfder y Darans yn y dyddiau da oedd ffyddlondeb y chwaraewyr i'r clwb, a'r trefniadaeth dda a ddeuai o bwyllgor medrus a gweithgar. Yng nghynghrair Gwynedd, 'cawr' sy'n cysgu yw Llanrug. O ran cyfleusterau dyma'r clwb mwyaf

uchelgeisiol, a rhaid canmol eu datblygiad. Eto, ymysg trigolion esmwyth y canol mae'r tîm cyntaf. Yr hyn sy'n ddiddorol yng nghynghrair Gwynedd yw fod ail dimau Hotspur Caergybi, Bae Cemaes a Llangefni/Glantraeth yn y gwaelodion, tra mae eu timau cyntaf yn uchel yng nghynghrair Fitlock y cam nesaf i'r gynghrair Genedlaethol. Tipyn o gagendor. Yr hen gwyn yn amlwg nad oes fawr o gysylltiad rhwng y ddau dîm tu fewn i'r un clwb.

Ar waelod y gynghrair mae Deiniolen, gyda disgyn efallai i gynghrair Arfon yn eu gwynebu. Sut mae denu chwaraewyr i glwb sy'n disgyn cynghrair? Stori drist yn wir yw sefyllfa tîm Deiniolen.

Un tîm sydd wedi elwa o gyn chwaraewyr Deiniolen yw Bethel, ble mae nifer o chwaraewyr wedi 'dod adref'. Mae hon yn flwyddyn gyntaf llwyddianus iawn i Fethel, wedi'r ail ffurfio. Trydydd yn y gynghrair, cyfle am un o dlysau y gynghrair, a rownd derfynol y Cwpan Iau. Marciau llawn i

(Parhad ar dudalen 22)

Y Cwpan Iau

Y bwriad y mis hwn oedd rhoi sylw teilwng i rownd derfynol Cwpan Iau yr Arfordir rhwng Bethel a Phorthmadog. Oherwydd ail drefnu, fe chwaraeir y gêm ar y noson cyn i'r rhifyn gyfredol o'r Eco ddod allan. Gan y bydd y gêm - a'r canlyniad gobeithio - yn gofnod pwysig, fe roddir sylw cyflawn i'r gêm ar yr Oval yn y rhifyn nesaf.

boddi yn ymyl y lan wrth geisio cyrraedd y gynghrair genedlaethol. Meddyliwch am un tîm da fuasai'n llythrennol yn 'dim yr ynys', yn y gynghrair. O'i leoli'n ganolog, buasai cefnogaeth bendant, ac *identity* penodol i'r tîm. Cyfle hefyd i'r awdurdodau a busnesau lleol noddi tîm â chysylltiad pendant a'r bobl.

Amser a ddengys os daw y newidiadau, ond ar hyn o bryd ymfalchiwn yng ngorchest y 'cochyn' o Lanber. Fel y canodd rhyw griw arall o Lanber rhyw dro - 'Mae hwn yn well na'r lleill i gyd.'